

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

## Y Gyfrol Cofnodion

Cyfrol (27)

2022 – 2023

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

eryri.llyw.cymru

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

**Y GYFROL COFNODION**
**2022 – 2023**

**CYFROL (27)**

**Y Gyfrol Cofnodion**

Mae'r Gyfrol hon yn cynnwys cofnodion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2022-2023.


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **CYFARFODYDD O'R AWDURDOD** | |
| | 27 Ebrill 2022 | 1 – 8 |
| | 15 Mehefin 2022 (CCB) | 9 – 19 |
| | 12 Hydref 2022 | 20 – 23 |
| | 16 Tachwedd 2022 | 24 – 30 |
| | 8 Chwefror 2023 | 31 – 37 |
| 2. | **PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD** | |
| | 18 Mai 2022 | 38 – 40 |
| | 29 Mehefin 2022 | 41 – 45 |
| | 7 Medi 2022 | 46 – 48 |
| | 19 Hydref 2022 | 49 – 52 |
| | 7 Rhagfyr 2022 | 53 – 56 |
| | 25 Ionawr 2023 | 57 – 60 |
| | 8 Mawrth 2023 | 61 – 66 |
| 3. | **PWYLLGOR SAFONAU** | |
| | 1 Ebrill 2022 | 67 – 69 |
| | 2 Medi 2022 | 70 – 73 |
| 4. | **PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU** | |
| | 13 Gorffennaf 2022 | 74 – 79 |
| | 30 Tachwedd 2022 | 80 – 85 |
| | 22 Mawrth 2023 | 86 – 89 |

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 27 EBRILL 2022**

Cynghorydd Wyn Ellis Jones (Cadeirydd) (Conwy)

***PRESENNOL*** :

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Philip Capper, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Mr. Tim Jones, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
Emyr Williams, G.Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dafydd Edwards, Sian Owen, Bethan Hughes, Angela Jones, Naomi Jones, Anwen Gaffey.

**Yn bresennol**
Rachel Freitag, Archwilio Cymru.

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Mike Stevens, Judith Humphreys; Ms. Tracey Evans.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a bod:

- Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac roedd yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion a byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

(1) adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfod cyswllt diweddar gyda Chymdeithas Eryri oedd wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

(2) rhoddodd y Cadeirydd wybod am nifer o gyfarfodydd a drefnwyd gyda Julie James, y Gweinidog dros Newid Hinsawdd, a oedd yn anffodus wedi'u canslo gan y Gweinidog am wahanol resymau. Y gobaith oedd y byddai cyfarfod yn cael ei ail-drefnu maes o law.

(3) dywedodd y Cadeirydd fod y Gweinidog bellach wedi cadarnhau penodiad dau Aelod newydd o Lywodraeth Cymru. Byddai Naomi Luhde-Thompson yn ymuno â'r Awdurdod ar 1 Mai a Delyth Lloyd yn dechrau ar 1 Awst 2022.

(4) gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cadeirydd o'r Awdurdod, manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfeillgarwch dros y blynyddoedd ac am eu gwaith yn gofalu am le mor arbennig ag Eryri. Mynegodd ei werthfawrogiad hefyd i Mr. Owain Wyn, cyn Gadeirydd yr Awdurdod, a oedd wedi ei gefnogi ers ei benodi i'r Gadair. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch o fod wedi gallu cynrychioli pobl Conwy a'i fod wedi mwynhau bod yn Aelod o'r Awdurdod dros nifer o dymhorau ers 2003.

(5) mynegodd y Cadeirydd hefyd ddymuniadau gorau i holl Aelodau'r Awdurdod Lleol oedd â seddi a ymleddir amdanynt yn yr etholiad Llywodraeth Leol sydd i ddod.

Yn codi wedi hynny, diolchodd Mr. Owain Wyn, ar ran yr Aelodau, i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig, ei waith, a'i arweiniad yn ystod y cyfnod heriol hwn.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol:-

(1) roedd y cyfleuster archebu ymlaen llaw ym maes parcio Pen y Pass wedi'i ailsefydlu ac roedd bellach yn haws i'w defnyddio yn ogystal â bod ar gael yn yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar wefan yr Awdurdod.

(2) gan nad oedd Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru – Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yn cael ei adolygu, yn lle hynny bydd yr Awdurdod yn derbyn llythyr cylch gwaith strategol gyda blaenoriaethau gan y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd, a fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 15 Mehefin 2022

(3) roedd yr addasiad cynyddol ym mandiau cyflog yr Awdurdod o ddau bwynt cyflog wedi'i gymhwyso a'i gynnwys yn y cyflogau o fis Ebrill ymlaen. Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i holl Aelodau'r Awdurdod am eu cefnogaeth ddi-ffael i staff yr Awdurdod dros y 5 mlynedd diwethaf ac am y sefydlogrwydd a'r cyngor cadarn a ddarparwyd ganddynt.

(4) rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fanylion i'r Aelodau am y ddarpariaeth yn Neddf yr Amgylchedd 1995 sy'n datgan nad yw person sy'n ymddeol o fod yn aelod o gyngor yn rhinwedd etholiad yn terfynu ei swydd fel aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol tan fod cyfnod o dri mis ar ôl iddynt ymddeol o fod yn aelod o'r cyngor wedi mynd heibio, neu os yw'n gynharach, y diwrnod y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael hysbysiad o benodiad arall arfaethedig. Os nad yw Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gwneud eu penodiadau erbyn 18 Mai 2022, bydd yn ofynnol i'r Aelodau presennol fynychu'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y diwrnod hwnnw.

*(5)* mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Rheolau Sefydlog yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol :- *"Caiff aelod newydd o'r Awdurdod eistedd a gwrando yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ond ni chaiff gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad hyd nes y bydd yr Aelod wedi mynychu cwrs hyfforddi Cynllunio a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir".*

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau.**

3. **Hawli i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Ni ddatganwyd unrhyw Fuddiant Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

6. **Materion er gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

<u>Eitem 9 – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021</u>

Cytunodd y Prif Weithredwr i ofyn i Mr. Nic Selwyn o Archwilio Cymru am y ddolen at yr 'Offeryn Data' a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cymharu data ariannol ar gyfer pob Cyngor, Parc Cenedlaethol ac Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, y gellid wedyn ei anfon ymlaen at yr Aelodau.

7. **Log / Cofnod Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

<u>Cyfarfod Awdurdod 25.09.19</u>
<u>Eitem Gweithredu 8 – Diweddariad ar y Gyllideb</u>
Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Rheolwr Eiddo ar hyn o bryd yn paratoi adroddiad diweddaru ar gyfer Aelodau'r Is-Grŵp Asedau a fydd yn cael ei anfon allan yn fuan.

<u>Cyfarfod Awdurdod 29.12.20</u>
<u>Eitem Gweithredu 7 – Log Gweithredu</u>
Cadarnhaodd y swyddogion fod yr eitem weithredu hon yn cyfeirio at benderfyniad a wnaed o ganlyniad i'r eitem weithredu y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 8 o'r cofnodion.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu fel yr amlinellwyd.**

8. **Cynllun Archwilio 2022**

Cyflwynwyd – Cynllun Archwilio 2022 Archwilio Cymru.

Adroddwyd - Cyflwynodd Rachel Freitag o Archwilio Cymru'r adroddiad, amlinellodd y risgiau archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru dros y flwyddyn i ddod, gan gynnwys yr archwiliad o ddatganiadau ariannol a gwaith archwilio perfformiad i'w gytuno gyda swyddogion. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith a'r ffioedd amcangyfrifedig.

Manteisiodd y Prif Swyddog Cyllid ar y cyfle i ddiolch i aelodaeth bresennol yr Awdurdod am eu gwaith a'u cefnogaeth dros y pum mlynedd diwethaf. Croesawodd Rachel i'w chyfarfod Awdurdod cyntaf i gyflwyno ei hadroddiad ac adroddodd ar drafodaethau a diwygiadau y cytunwyd arnynt gydag Archwilio Cymru cyn ei gyflwyno.

Yn codi wedi hynny, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai Prif Weithredwyr y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru yn cyfarfod ag Archwilio Cymru cyn bo hir i drafod eu rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2022-23. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd ei fod yn credu efallai y cynhelir dau archwiliad y flwyddyn nesaf, un ar lefel genedlaethol ac un ar lefel leol. Cadarnhaodd hefyd y byddai Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin i gyflwyno eu hadroddiad archwilio ar Dwristiaeth Gynaliadwy.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys Cynllun Archwilio 2022.**

9. **Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod a mabwysiadu'n ffurfiol yr argymhellion a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd fod y diwygiadau, fel yr argymhellwyd gan y Gweithgor Aelodau, bellach wedi'u cynnwys.
Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r argymhellion a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Cytunodd yr Aelodau a'r swyddogion fod cyfleoedd i Aelodau newydd gyfarfod wyneb yn wyneb yn hanfodol i feithrin perthnasoedd gwaith da.
- mewn ymateb i gwestiwn dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y dechnoleg ar gyfer darlledu byw yn datblygu'n gyflym iawn,

ac unwaith y byddai'r penderfyniad i fwrw ymlaen wedi'i gytuno, ni fyddai'n cymryd yn hir i'w sefydlu.
- cododd rhai Aelodau amheuon ynghylch effeithiolrwydd cyfarfodydd hybrid a dylai swyddogion geisio cyngor arfer gorau gan sefydliadau a oedd eisoes yn defnyddio'r dull hwn.
- teimlai Aelod y dylid cynnal cyfran o gyfarfodydd yr Awdurdod wyneb yn wyneb er mwyn helpu i adeiladu ysbryd tîm ar gyfer staff ac Aelodau. Gofynnodd a ddylai cyfarfodydd 'yn bersonol' fod yn ddiofyn i ddiogelu rhag i Aelodau profiadol beidio â mynychu na fyddai wedyn o unrhyw fudd i'r Aelodau newydd.
- cytunwyd y dylai Aelodau gael y dewis i fynychu cyfarfodydd o bell neu wyneb yn wyneb yn y dyfodol er mwyn sicrhau tegwch i bawb.
- awgrymodd Aelod y gellid defnyddio'r Diwrnod Datblygu Aelodau, a drefnwyd ar gyfer dechrau mis Gorffennaf, i gyflwyno aelodau newydd, a rhoi cyfle i gyfarfod wyneb yn wyneb os yw'r tywydd yn caniatáu.

**PENDERFYNWYD**

1. **mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i ddiweddaru fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**
2. **mabwysiadu'r broses ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant a Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.**
3. **cytuno ar y disgrifiadau rôl diweddaraf aelodau a chadeiryddion fel y nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad.**
4. **datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau fel y nodir ym mharagraffau 2.3.2.1 – 2.3.2.7 yr adroddiad.**
5. **penodi Ms. Sarah Hattle i arwain ar fentora Aelodau.**
6. **bod yr Awdurdod yn parhau gyda'i strwythur pwyllgorau presennol ond y dylai, yn y dyfodol, ystyried newid i Gynllun Dirprwyo'r Awdurdod i roi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod yn ofynnol yn benodol).**
7. **Cylch Gorchwyl a gwaith Grwpiau Tasg a Gorffen yn y dyfodol i'w gosod fel y nodir ym mharagraffau 2.4.3 – 2.4.6 yr adroddiad.**
8. **bwrw ymlaen â chyfarfodydd y dyfodol a mynediad cyhoeddus fel y nodir ym mharagraffau 2.5.1 – 2.5.4 yr adroddiad.**
9. **bod Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chontractau i'w hadolygu a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod maes o law gyda hyfforddiant priodol i staff fel y nodir ym mharagraffau 2.6.1 – 2.6.3 yr adroddiad.**

10. **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r llythyr atodol oddi wrth y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

11. **Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn**
Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol i roi diweddariad i'r Aelodau ar weithgarwch yn Yr Ysgwrn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yr Adroddiad Blynyddol yn fanwl a manteisiodd hefyd ar y cyfle i ddiolch i Mr. Owain Wyn am ei gefnogaeth anfesuradwy i'r Ysgwrn a'i staff yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol am yr adroddiad blynyddol a diolchwyd i holl staff a gwirfoddolwyr Yr Ysgwrn am eu gwaith.
- argymhellodd Aelod hyrwyddo'r Ysgwrn i gylchoedd llenyddol y tu allan i Gymru a hefyd yn rhyngwladol, fel rhan o'r nod o gyrraedd marchnad ehangach.
- awgrym arall oedd datblygu'r gynulleidfa drwy gysylltu â Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc yr Alban, Cymru, a Lloegr a hefyd i farchnata'r Ysgwrn yn Iwerddon yn y dyfodol.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol y bydd Yr Ysgwrn a Phlas Tan y Bwlch yn cydweithio i ddenu ysgolion o ymhellach i ffwrdd. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Cynllun Busnes yn cael ei baratoi ar gyfer Plas Tan y Bwlch a fydd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Plas Tan y Bwlch yn fuan.
- nododd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol fod cyfleoedd i arbed ar gostau rhedeg yn gyfyngedig. Rhaid cadw'r Ysgwrn ar dymheredd cyson er mwyn gwarchod y dodrefn a'r creiriau a rhaid cwrdd â chostau staff hyd yn oed pan fo llai o fusnes. Mae Cynllun Datblygu Cynulleidfa Yr Ysgwrn yn anelu at ddatblygu marchnadoedd targed eraill ac er nad oedd data i gefnogi hyn ar hyn o bryd, bydd tystiolaeth ar gael erbyn yr adroddiad blynyddol nesaf.
- Trafododd yr aelodau'r problemau technegol gyda'r boeler biomas a oedd wedi bod yn siomedig iawn, ond gobeithio bod y sefyllfa wedi'i hunioni erbyn hyn.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol, er gwybodaeth.**
2. **yn dilyn newidiadau i'r safle ac i aelodaeth yr Awdurdod, dylai Aelodau ymweld â'r Ysgwrn ar ddyddiad i'w drefnu yn 2022 i ymgyfarwyddo â'r safle ac i drafod materion penodol.**

12. **Parciau Cenedlaethol Cymru: Tirweddau i Bawb: Ein hagwedd at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant (Diwygiwyd ar gyfer 2021)**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau i fabwysiadu'r fersiwn diwygiedig 'Tirweddau i Bawb Parciau Cenedlaethol Cymru: Ein Hymagwedd at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant.'

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau yr adroddiad a'r cefndir. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro wedi cymeradwyo'r ddogfen.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a mabwysiadu 'Parciau Cenedlaethol Cymru: Tirweddau i Bawb' fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn ac fel y'i cyflwynwyd i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2022.**

13. **Adroddiadau Gweithgorau Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiadau o gyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 19eg Ionawr a'r 2il o Fawrth 2022.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau.**

14. **Calendr Cyfarfodydd**

Cyflwynwyd – Amserlen o gyfarfodydd am y cyfnod 2022/2023.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Calendr Cyfarfodydd a gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Safonau yn cael ei drefnu ar 28 Ebrill 2023, i gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau yn ei ddyletswydd newydd i ddarparu'r Awdurdod gydag Adroddiad Blynyddol.

Yn codi wedi hynny, dywedodd y Prif Weithredwr fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn awyddus i gynnal Seminar Aelodau Tirwedd Dynodedig Cymru yn 2022, a bydd y dyddiad yn cael ei adrodd maes o law.

**PENDERFYNWYD yn ddarostyngedig y nodi'r cyfarfod ychwanegol uchod o'r Pwyllgor Safonau, cymeradwyo'r amserlen ar gyfer 2022/23 fel y'i cyflwynwyd.**

15. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**

Cyflwynwyd - Adroddiadau llafar ar gyfarfodydd diweddar sefydliadau yr oedd Aelodau wedi'u mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

Mr. Owain Wyn – Ymgyrch Parciau Cenedlaethol

- canolbwyntiodd y cyfarfod ar ymateb Llywodraeth y DU i adolygiad Glover a arweiniodd at gyfres o gyflwyniadau ar Adfer Natur a Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag ymestyn hawliau cyhoeddus i grwydro, sy'n wahanol iawn i Lywodraeth Cymru, sy'n cefnogi ymestyn yr hawliau.
- Cynhelir Cynhadledd Flynyddol CNP ar 12-14 Hydref 2022 ym Mhlas y Brenin ac os oedd gan Aelodau ddiddordeb mewn mynychu, dylent gysylltu â Chymdeithas Eryri.

Cynghorydd John Pughe Roberts – Fforwm Mynediad Ardal y De

Mynychu cyfarfod diweddar lle'r oedd trafodaethau'n canolbwyntio ar:-

- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Mynediad i Ddŵr
- Cerbydau 4 x 4 ym Mhennal
- Llwybrau march / ceffylau
- diweddariad ar y £250k a wariwyd ar waith llwybrau troed

**PENDERFYNWYD diolch i'r Aelodau a nodi'r adroddiadau.**

16. **Cofnodion**

Cyflwynwyd - Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 24ain Tachwedd 2021, er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

Mynegodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau a'i ddiolch i holl staff yr Awdurdod am eu gwaith a'u cefnogaeth dros ei gyfnod yn y swydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.30**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**
**DYDD MERCHER 15 MEHEFIN 2022**

***YN BRESENNOL*** :

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan y Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Mr. Mr Owain Wyn;

**Swyddogion**
Mr. E. Williams, Mr G. I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr D. Edwards, Ms. Bethan Hughes, Ms Helen Pye, Ms. Angela Jones, Mrs. A. Gaffey.

**Ymddiheuriad**
Mrs Sarah Hattle.

Gan fod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal o bell, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cadeirydd**

   Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y drefn ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i'r Awdurdod a dywedodd wrth yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig tri Aelod fel Cadeirydd, y Cynghorydd Annwen Hughes, y Cynghorydd Ifor Glyn. Lloyd a Mr. Tim Jones. Gwahoddwyd yr Aelodau i annerch y cyfarfod.

   Derbyniodd y Cynghorydd Annwen Hughes a Mr. Tim Jones y gwahoddiad i annerch y cyfarfod, gan gyflwyno eu hunain i Aelodau newydd a darparu crynodeb o'u cefndir a'u profiad.

   Diolchodd y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd i'r Aelodau am roi ei enw ymlaen ond dywedodd, gan ei fod yn Gadeirydd presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yr hoffai dynnu ei enwebiad yn ôl ar yr adeg hon.

   **Etholwyd y Cynghorydd Annwen Hughes yn Gadeirydd ar yr Awdurdod.**
   Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Is-Gadeirydd**

   Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig tri. Aelodau dros yr Is-Gadeirydd, Mr. Tim Jones, y Cynghorydd Elfed Roberts a'r Cynghorydd Edgar Owen. Gwahoddwyd yr Aelodau i annerch y cyfarfod.

   Derbyniodd y Cynghorwyr Edgar Owen ac Elfed Roberts y gwahoddiad i annerch y cyfarfod tra bod Mr. Tim Jones yn dibynnu ar yr anerchiad a roddodd ar gyfer yr etholiad am Gadeirydd . Yn dilyn y rownd gyntaf o bleidleisiau dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mai'r Cynghorydd Elfed Roberts oedd wedi derbyn y nifer lleiaf o bleidleisiau y byddai ail rownd o bleidleisio rhwng Mr. Tm Jones a'r Cynghorydd Edgar Owen.

**Etholwyd y Cynghorydd Edgar Owen yn Is-Gadeirydd yr Awdurdod.**
Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth a chroesawodd y cyn-aelodau a'r Aelodau newydd eu hethol i gyfarfod cyntaf yr Awdurdod newydd.

Yna manteisiodd y Cadeirydd a'r Aelodau ar y cyfle i longyfarch y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd ar gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

4. **Diweddariad Corfforaethol**
(1) Llongyfarchodd y Prif Weithredwr y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar eu penodiad a chroesawodd yr Aelodau oedd yn dychwelyd ac a oedd newydd eu penodi i'w cyfarfod cyntaf o'r Awdurdod newydd. Nododd bod yr Awdurdod heddiw wedi ethol ei Gadeirydd benywaidd cyntaf erioed ac o 1 Awst 2022 , bydd nifer yr Aelodau benywaidd yn y mwyafrif.
(2) Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod wedi bod yn ffodus iawn yn ei Aelodau, sydd wedi rhoi sefydlogrwydd a chyfeiriad strategol iddo. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Mr. Owain Wyn yn mynychu ei gyfarfod Awdurdod olaf fel Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac ar ran yr Aelodau a’r Swyddogion, mynegodd werthfawrogiad a diolch am ei gyfraniad gwerthfawr a’i wasanaeth dros y blynyddoedd, yn enwedig yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd yr Awdurdod.
(3) Rhoddodd y Prif Weithredwr fanylion i'r Aelodau am gyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar ddod.
(4) Hysbyswyd yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi penodi Pennaeth Personél newydd yn ddiweddar, a fyddai'n dechrau yn ei swydd yn fuan. Dywedodd hefyd fod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn y broses o baratoi bid am tua £800k o arian grant ychwanegol.
(5) Dywedodd y Prif Weithredwr fod y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru wedi penodi Cadeiryddion newydd a bod yr ysgrifenyddiaeth wedi trosglwyddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am y ddwy flynedd nesaf.

5. **Hawl i’r cyhoedd holi**
Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

6. **Datgan Budd**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

7. **Aelodaeth o'r Awdurdod**
Cyflwynwyd - Adroddiad y Prif Weithredwr ar aelodaeth gyfredol yr Awdurdod , er gwybodaeth.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a gofynnodd i'r Aelodau gadarnhau bod eu manylion cyswllt yn gywir a chaniatáu i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Yn codi wedi hynny:-
1. Nododd swyddogion yr angen i gywiro sillafiad Naomi Luhde-Thompson.

2. Gofynnodd Brian Angell i'w rif ffôn symudol, yn hytrach na'i linell sefydlog, gael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

8. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2022 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

Yn codi wedi hynny, diolchodd Mr. Owain Wyn i'r Prif Weithredwr a chynigiodd y dylai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ysgrifennu i ddiolch i'r holl aelodau a oedd yn gadael am eu gwasanaeth a'u hymrwymiad i waith yr Awdurdod.

9. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth a chamau gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 25.09.19
Eitem Gweithredu 8 – Diweddariad ar y Gyllideb
Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod diweddariad manwl wedi'i ddosbarthu i Aelodau'r Is-grŵp Asedau gyda'r nod o gytuno i gyfarfod pellach yn yr Hydref.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod gwrandawiad Aberdyfi i'w gynnal ar 4 Gorffennaf 2022 ac efallai na fydd Dyfarniad y Goruchaf Lys ar gael tan ddyddiad diweddarach.

Cyfarfod Awdurdod 09.12.20
Eitem Gweithredu 7 – Log Gweithredu
Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd Grŵp Tasg a Gorffen Maniffesto Ieuenctid yn cael ei gytuno unwaith y bydd Aelodau newydd wedi'u penodi ar y grŵp.

Cyfarfod Awdurdod 09.02.22
Eitem Gweithredu 13 – Cadernid yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff
Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r grŵp newydd o Aelodau yn cyfarfod i ystyried capasiti/rôl y Cyfarwyddwyr. Bydd y grŵp hefyd yn penderfynu a ddylid ystyried rôl y Prif Weithredwr os oes angen.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.**

10. **Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Cyflwynwyd – Adroddiad Twristiaeth Gynaliadwy gan Archwilio Cymru, ynghyd ag Adroddiad Cryno.

Croesawodd y Cadeirydd Nic Selwyn ac Euros Lake o Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad. Rhoddwyd cyflwyniad PowerPoint i'r aelodau o'r prif ganfyddiadau a dywedwyd wrthynt fod yr adroddiad yn ymwneud yn bennaf ag Eryri gan gyfeirio at faterion mwy Cenedlaethol ar ddiwedd yr adroddiad, er gwybodaeth.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd y Pennaeth Ymgysylltu i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Cynghorydd Louise Hughes ynghylch Cartrefi Modur a'r dryswch o ran Aires ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Byddai swyddogion hefyd yn cysylltu â busnesau lleol i fynd i'r afael â'r camddealltwriaeth hwn.
- mewn ateb i gwestiwn, cadarnhaodd Archwilio Cymru fod Egwyddor Sandford yn dal i fod yn berthnasol a phe bai pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn gwrthdaro, yna cadwraeth fyddai bob amser yn cael blaenoriaeth. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr yr Aelodau at y canlyniad yng Nghanlyniad 4 lle teimlai 52% o fusnesau twristiaeth nad oedd gan yr Awdurdod y cydbwysedd cywir rhwng ei

ddau bwrpas a gofynnodd am ddadansoddiad pellach ar hyn gan Archwilio Cymru.

- Mewn ymateb i gwestiwn pellach, nododd Archwilio Cymru ei bod yn anodd i Barciau Cenedlaethol ddylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr a chadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau fod Prifysgol Bangor yn parhau â'i hymchwil i sbwriel yn y Parc Cenedlaethol. Mae hyn wedi esgor ar ddata sydd wedi ei gynnwys yn Strategaeth Gyfathrebu Parc Cenedlaethol Eryri. Yn sgil y gwaith hwn, roedd yr Awdurdod bellach yn y broses o benodi swyddog ar gyfer y prosiect 'Wyddfa di-blastig'. Teimlai'r Aelod y byddai'n ddefnyddiol cael crynodeb o ganlyniad yr ymchwil hwn er mwyn darparu dealltwriaeth strategol o'r materion hyn sydd a wnelo ymddygiad.
- Trafododd yr Aelodau lwyddiant Cynllun Llysgenhadon 'Llysgennad Eryri' sydd â thros 700 o lysgenhadon ar hyn o bryd. Darparodd y Rheolwr Partneriaethau fanylion pellach am y cynllun sy'n cael ei adolygu'n barhaus ac yn y dyfodol yn anelu at estyn allan ar lefel ymarferol i fusnesau lletygarwch ac ati.
- Gan ymateb i gwestiwn pellach, nododd y Rheolwr Partneriaethau fod adroddiad Archwilio Cymru yn cyfeirio at y gwaith cyfredol gan APCE a Chyngor Gwynedd drwy Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i sefydlu cynllun strategol a fydd yn cynnwys mewnbwn o bob sector ar draws y Parc Cenedlaethol a Gwynedd, a galluogi swyddogion i greu cynllun gweithredu manwl.
- nododd aelod ei bryderon nad oedd sôn am dwristiaeth gynaliadwy yn llythyr cylch gorchwyl y Gweinidog. Dywedodd Archwilio Cymru eu bod yn hyderus bod Llywodraeth Cymru yn cymryd eu canfyddiadau o ddifrif.
- dywedodd y Pennaeth Ymgysylltu, mewn ymateb i gwestiwn, y bydd cyllid diweddar gan Croeso Cymru yn galluogi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i lansio ymgyrch yn yr wythnosau nesaf i geisio dylanwadu ar ymddygiad yng nghefn gwlad. Er yn ddelfrydol dylid cael ymgyrch genedlaethol, teimlwyd y byddai 700 o lysgenhadon yn lledaenu'r neges yn helpu i gefnogi cynnydd yn lleol. Teimlai'r Pennaeth Ymgysylltu fod adroddiad Archwilio Cymru yn mynd at wraidd yr her a wynebai'r Awdurdod ac yn amlygu'r angen i ganfod cydbwysedd ar gyfer y dyfodol drwy weithio gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ochr yn ochr â chymunedau lleol.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i Mr. Nick Selwyn a Mr. Euros Lake o Archwilio Cymru am ddod i'r cyfarfod i gyflwyno eu hadroddiad.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad a derbyn yr argymhellion fel y'u nodwyd.**
2. **i aros am grynodeb o ganlyniad ymchwil gan Brifysgol Bangor i sbwriel yn y Parc Cenedlaethol i gyfarfod yn y dyfodol.**

11. **Llythyr Cylch Gorchwyl Tymor y Llywodraeth ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Cyflwynwyd – Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru oddi wrth y Gweinidog dros Newid Hinsawdd, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr gefndir i'r Aelodau a dywedodd fod cynnwys y llythyr wedi'i ymgorffori yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol.

Trafododd yr Aelodau y canlynol:-
- nodi fod y llythyr am dymor y Llywodraeth.
- cyfeiriad yn y llythyr at ragoriaeth mewn llywodraethu trwy welliant a rhaglen gymorth a system berfformiad flynyddol gryfach, a ellid ei hymestyn i bobl a benodir gan Awdurdod Lleol.

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu ei hymagwedd at gynaliadwyedd ffermio i gefnogi ffermwyr ac arwain at Barciau Cenedlaethol gydag ardaloedd mwy bioamrywiol. Cytunodd y Prif Weithredwr fod angen adolygu polisïau i
  ymateb i heriau megis newid yn yr hinsawdd a chefnogaeth amaethyddol i’r dyfodol
  ffermwyr. Mae’r Gweinidog yn cydnabod yr heriau wrth symud ymlaen ac mae wedi darparu adnoddau ychwanegol i greu swyddi newydd i fynd i'r afael â hyn.
- bydd adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol yn anelu at gefnogi iaith Gymraeg ffyniannus.
- absenoldeb unrhyw gyfeiriad at y cwricwlwm cenedlaethol newydd a manteision addysgu plant am effeithiau newid hinsawdd.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y gwaith i dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb ym mhob ffurf yn cael ei wneud
  gan swyddog o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar
  ar ran y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, er gwybodaeth.**

12. **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau a Chynrychiolaeth Allanol**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Weithredwr i benodi Aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgorau, Paneli, Gweithgorau a Chynrychiolaeth Allanol a ganlyn.

Yn codi wedi hynny, dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr holl Bwyllgorau, Gweithgorau ac ati yn wag a bod enwau'r aelodau blaenorol wedi'u cynnwys er gwybodaeth yn unig. Hefyd gofynnwyd i'r aelodau, lle bo modd, geisio cadw at gyfansoddiad yr Awdurdod ei hun (2:1).

**PENDERFYNWYD**

**1. penodi Aelodau fel a ganlyn:-**

**(1) PWYLLGORAU**

**i)** ***Pwyllgor Cynllunio a Mynediad*** **- Holl Aelodau'r Awdurdod**

**ii)** ***Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau*** **- Holl Aelodau'r Awdurdod**

**iii)** ***Pwyllgor Safonau*** (Mae’re Cyfnod yn y Swydd wedi’i sefydlu gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001). Yn codi wedi hynny, nododd yr Aelodau y bydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn y dyfodol.
**Cynghorwyr Dilwyn Roberts, Elfed Roberts; Mrs Sarah Hattle.**
**+ 3 Aelod Annibynnol**

**(2) PANELI**

**i)** ***Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl***
**3 Aelod + 2 ddirprwy Aelod i'w dethol o blith aelodaeth y Pwyllgor Safonau gan y Pwyllgor Safonau**

**(3) GWEITHGORAU**

**i)** ***Gweithgor Aelodau*** **- Holl Aelodau'r Awdurdod**

**ii)** ***Cyd Weithgor Lleol***
**Cynghorwyr Elwyn Edwards, Kim Jones, Ifor Glyn Lloyd; Mrs Sarah Hattle.**

**iii)** ***Bwrdd Rheoli'r Ysgwrn***
**Cynghorwyr Elwyn Edwards, Elfed Powell Roberts; Ms. Naomi Luhde-Thompson.**

**iv)** ***Bwrdd Rheoli Plas Tan a Bwlch***
**Cynghorydd Meryl Roberts; Ms Tracey Evans, Mr Tim Jones.**

**(4) PWYLLGORAU YMGYNGHOROL YR AWDURDOD**

**i)** ***Cynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn***
**Cynghorwyr Elwyn Edwards, Ifor Glyn Lloyd, June Jones;**
**Mr Brian Angell.**

**ii)** ***Fforwm Eryri***
**Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)**
**Cynghorydd Edgar Owen (Is-Gadeirydd)**
**Cynghorwyr Kim Jones, Jo Nuttall; Mr Brian Angel.**
**(Wrth Gefn - Cynghorydd Dilwyn Roberts)**

**iii)** ***Fforymau Mynediad Lleol***
***De*** **: Cynghorydd John Pughe Roberts**
***Gogledd*** **: Mr. Tim Jones**

**iv)** ***Fforwm Cydraddoldeb Eryri***
**Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd**

**(5) GRWPIAU TASG A GORFFEN**

**i)** ***Is-grŵp Asedau***
**Cynghorwyr June Jones, Ifor Glyn Lloyd, Meryl Roberts;**
**Mr. Brian Angell, Ms Tracey Evans, Mr. Tim Jones.**

**(ii) Cyfathrebu**
**Y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd; Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson .**

**(iii) Grŵp Maniffesto Ieuenctid Europarc**
**Cynghorwyr Kim Jones, John Pughe Roberts; Ms. Tracey Evans.**

**(iv) Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Traffig**
**Cynghorwyr Edgar Owen, John Pughe Roberts; Ms. Tracey Evans.**

**(v) Grŵp Llywio'r Cyfrif Carbon**
**Cynghorydd John Pughe Roberts; Mr Brian Angell, Mr Tim Jones.**

**(vi)** **<u>Grŵp Llywio Enwau Lleoedd</u>**
**Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, June Jones, Dilwyn Roberts.**

**(viii)** **<u>Grŵp Llywio'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg Newydd</u>**
**Cynghorydd Elwyn Edwards, Elfed Roberts; Ms Delyth Lloyd.**

**(6) CYRFF ERAILL**

**i)** ***<u>Grŵp Rhanddeiliaid Trawsfynydd</u>***
**Cynghorydd Elfed Powell Roberts**

**ii)** ***<u>Cyd-gyngor Cymru</u>***
**Cynghorydd Louise Hughes**

**iii)** ***<u>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Pwyllgor Cyswllt Lleol Beddgelert</u>***
**Cynghorydd June Jones**

**iv)** ***<u>Ymgyrch dros y Parciau Cenedlaethol</u>***
**(Cynrychiolir y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymreig gan Aelod o'r Awdurdod sy'n dal Ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru)**

**v)** **<u>Cynghrair Tirweddau Dynodedig Cymru</u>**
**Mr Tim Jones**

**vi)** ***<u>Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</u>***
**Cynghorydd Dilwyn Roberts**

**vii)** ***<u>Pen Llyn a'r Sarnau (ACA)</u>***
**Cynghorydd Louise Hughes**

**viii)** ***<u>Grŵp Gweithredol Menter Goriad Gwyrdd Eryri</u>***
**Cynghorydd June Jones**

**ix)** ***<u>Fforwm Strategol Rhaglen Ynys Ynni</u>***
**Cynghorydd Elf Roberts**

**x)** ***<u>Partneriaeth Biosffer Dyfi</u>***
**Cynghorydd Louise Hughes**

**xi)** ***<u>Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian</u>***
**Cynghorydd Meryl Roberts**
**(Wrth Gefn – Ms. Delyth Lloyd)**

13. **Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Adroddwyd – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, a oedd yn anffodus wedi gorfod gadael y cyfarfod oherwydd ymrwymiad blaenorol. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol roi'r cefndir a rhoi gwybod am y ddyletswydd statudol ychwanegol a osodwyd ar y Pwyllgor Safonau i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

14. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 202 1/22. Yn codi wedi hynny, dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd adroddiad monitro cwynion manwl yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2022.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.**

15. **(Drafft) Rhaglen Waith Gorfforaethol 2022/23**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau drafod a mabwysiadu'r Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) fel dogfen waith ar gyfer 2022/23.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) yn fanwl er budd yr Aelodau newydd. Dywedodd fod Archwilio Cymru yn fodlon â'r ffordd yr oedd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno a sut yr oedd yn cyd-fynd â chanlyniadau Cynllun Eryri. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod cynnydd yn erbyn amcanion yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad.**
2. **mabwysiadu'r Rhaglen Waith Gorfforaethol yn ffurfiol fel dogfen waith ar gyfer 2022-23.**

16. **Adroddiad Blynyddol ar Wir Weithgaredd Rheoli'r Trysorlys 2021/22**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn manylu ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod yn ystod 2021/22, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid ei hun a Sian Owen, y Pennaeth Cyllid i'r Aelodau newydd. Cyflwynodd ei adroddiad yn fanwl a chadarnhaodd fod cronfeydd a buddsoddiadau'r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiogel.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

17. **Presenoldeb Aelodau**
Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn manylu ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau o 1 Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad. Yn codi wedi hynny, gofynnodd Aelod a oedd y math hwn o lywodraethu yn dal yn berthnasol wrth i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru fesur perfformiad, yn hytrach na phresenoldeb. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n ystyried fformat yr adroddiad ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

18. **Safonau'r Gymraeg**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ynghyd ag Adroddiad Monitro Safonau Iaith yr Awdurdod 2021/22.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a'r cefndir.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad ac awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gyhoeddi Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 20 21/22 ar wefan yr Awdurdod.**

19. **Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Eryri 2020/21**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau ar flwyddyn gyntaf gweithredu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar gyfer 2020/21.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau'r adroddiad a chadarnhaodd fod yr holl Bartneriaid wedi darparu tystiolaeth, gyda micro-safle yn cael ei greu i alluogi'r Partneriaid i ddiweddaru'r Cynllun. Cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau fod cynnydd wedi'i gyflawni ym mhob Canlyniad ar y Cynllun Gweithredu, o dan amgylchiadau anodd iawn, gydag un eithriad (Rhif A2.1) a oedd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod ar hyn o bryd. Bydd y camau gweithredu'n cael eu hailasesu a'u cynnwys yn Adroddiad Cynnydd Blynyddol nesaf 2021/22.

Croesawodd yr aelodau'r adroddiad, a oedd wedi'i ysgrifennu'n dda ac yn hawdd ei ddeall, er bod cais wedi'i wneud i gynyddu maint y math/ffont mewn rhai mannau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni Cynllun Eryri.**

20. **Adroddiad y Gweithgor Aelodau**
Cyflwynwyd – Adroddiad y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2022 .

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

21. **Cynadleddau 2022**
(i) **Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU 20 22**
**Parc Cenedlaethol Exmoor, 27ain-29ain Medi 2022.**
Cyflwynwyd – Dyddiad i'w nodi yn y dyddiadur ynghyd ag adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd – Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn arferol anfon pedwar cynrychiolydd, gan gynnwys y Cadeirydd, i'r Gynhadledd.

**PENDERFYNWYD anfon pedwar cynrychiolydd i'r Gynhadledd, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd. Enwebwyd yr aelodau canlynol hefyd i fod yn bresennol:-**
**Y Cynghorydd Elfed Roberts; Mr Tim Jones.**
**(Aelodau Wrth Gefn – y Cynghorydd Edgar Wyn Owen a'r Cynghorydd Louise Hughes).**

(ii) **Cynhadledd Flynyddol CLILC 2022 – Dydd Iau 22 Medi 2022**
**Venue Cymru, Llandudno**
Cyflwynwyd – Dyddiad i'w nodi yn y dyddiadur ar gyfer Cynhadledd Flynyddol 2022 CLILC.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Cynghorydd Dilwyn Roberts gynrychioli'r Awdurdod yng Nghynhadledd Flynyddol CLILC 2022.**

(iii) **Cynhadledd Europarc 2022**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i hysbysu'r Aelodau am Gynhadledd EUROPARC 2022 a thrafod cynrychiolaeth o APCE yn y digwyddiad.

Adroddwyd - Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Gynhadledd Europarc nesaf yn cael ei chynnal yn Argelès-sur-Mer, Pyrénées Orientales, Ffrainc rhwng 5 a 7 Hydref 2022. Thema'r Gynhadledd fydd “Mae'r Hinsawdd yn Newid! Sut gall Ardaloedd Gwarchodedig Addasu?

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad ac awdurdodi cynrychiolaeth o Eryri yng Nghynhadledd Europarc 2022.**
2. **anfon dau gynrychiolydd (1 aelod ac 1 swyddog) i Gynhadledd Europarc ac i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gymeradwyo'r ddirprwyaeth.**
3. **y dylai Mr. Brian Angell gynrychioli'r Awdurdod yng Nghynhadledd Europarc 2022 yn Argelès-sur-Mer, Pyrénées Orientales, Ffrainc gyda Mr. Tim Jones wrth gefn.**

22. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**

Cyflwynwyd – Diweddariadau llafar ar gyfarfodydd diweddar sefydliadau y mae Aelodau wedi'u mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

<u>Fforwm Mynediad Lleol - Ardal y De</u>
<u>Cynghorydd John Pughe Roberts</u>
Trafodwyd yr hyn a ganlyn yn y cyfarfod diweddar:-

- Ffigurau monitro llwybrau arfordirol
- bu'r Fforwm Mynediad yn trafod eu hawdurdod i gymeradwyo Drafft APCE o'r Diweddariad ar y Strategaeth Adfywio.
- Cyfoeth Naturiol Cymru - Pryderon Cronfa Ddŵr Llyn Tegid ynglŷn â chodi lefelau'r llyn.
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Mapio mynediad.
- diweddariad gan y Gwasanaeth Warden ar wersylla gwyllt.
- mynegwyd pryderon bod gormod o gonau'n cael eu defnyddio yn y Parc Cenedlaethol.
- Prosiect Cwmni Nod Glas - gwariwyd dros £250k ar wella llwybrau troed yng nghyffiniau Dinas Mawddwy.
- diolch i ffermwyr lleol am gadw'r llwybrau troed yn glir a thaclus.

<u>Cyng. Elfed Powell Roberts - Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd</u>
Trafodwyd yr hyn a ganlyn yn y cyfarfod diweddar:-

- adeiladu cyfleuster storio gwastraff
- gan fod adroddiadau diweddar wedi ailfywiogi trafodaethau, awgrymodd y Cynghorydd Roberts hynny y dylid gwahodd Cwmni Egnio, a sefydlwyd i gyflwyno prosiectau newydd yn Nhrawsfynydd, i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Hysbyswyd yr aelodau bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir wedi mynychu cyfarfod o bell gyda Chwmni Egnio yn ddiweddar fel cyflwyniad. Teimlai'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir efallai ei bod yn rhy fuan i estyn gwahoddiad i Gwmni Egnio ar hyn o bryd ond byddai gwahoddiad i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol yn cael ei roi pan fyddai cynigion pendant ar gael.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai manylion y gwaith datgomisiynu yn Nhrawsfynydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn y dyfodol agos.

**PENDERFYNWYD diolch i'r Aelodau a nodi'r adroddiadau.**

23. **Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:-

(1) Cofnodion Cyfarfod Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2021

(2) Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022

(3) Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2022.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau am eu mewnbwn a dymunodd yn dda i Mr. Owain Wyn am ei ymrwymiad i waith Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ystod ei dymor fel Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.15**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 12 HYDREF 2022**

Cynghorydd Annwen Hughes (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL*** :

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
Mr. E. Williams, Mr. GI Jones, Mr. D. Edwards, Ms S. Owen, Ms. Nia Roberts, Mrs. A. Gaffey.

**Yn bresennol**
Mr. Nick Selwyn, Mr. Euros Lake, Ms. Rachel Freitag - Archwilio Cymru.

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr June Jones, Elfed Powell Roberts;
Mr. J. Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir.

Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

(1) Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Roedd y cyfarfod wedi'i ohirio ym mis Medi yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II ac roedd yn cael ei ailgynnull heddiw. Hefyd, croesawodd y Cadeirydd Ms. Delyth Lloyd i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod.

(2) Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am ddigwyddiadau a fynychwyd yn ddiweddar gan y Cadeirydd a'r Aelodau:-
- cyfarfu'r Cadeirydd â Llywydd Sioe Frenhinol Cymru ac roedd wedi cyflwyno gwobr 'Myfyriwr y Flwyddyn' ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru.
- cyfarfod gyda Leslie Griffiths MS yn Yr Ysgwrn.
- mynychodd y Prif Weithredwr a'r Is-Gadeirydd Seminar ym Mhortmeirion ar yr Ardoll Twristiaeth yn ddiweddar.
- roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd Elfed Roberts, Mr. Tim Jones a'r Prif Weithredwr wedi mynychu Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU 2022 yn Exmoor yn ddiweddar.
- Roedd Mr. Brian Angell a Mr. Tim Jones wedi cynrychioli'r Awdurdod yng Nghynhadledd Ewroparc yn **Argelès-sur-Mer, Ffrainc.**

(3) Yna hysbyswyd yr Aelodau ynghylch cyfarfodydd yn y dyfodol:-
- Diwrnod Datblygu Aelodau yn Yr Ysgwrn ar Ddydd Gwener 14eg Hydref 2022 .
- Cyfarfodydd blynyddol Cynghorau Cymuned a Thref ( ar-lein trwy Zoom) ar y 25ain a'r 27ain o Hydref 2022.

- Sesiwn Anwytho Aelodau Newydd gyda'r Tîm Rheoli ar gyfer Aelodau nad oedd wedi gallu mynychu'r cyfarfod cyntaf.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol:-

(1) Yn unol â Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, roedd y tri swyddog strategol bellach wedi'u penodi, un ym mhob Parc Cenedlaethol. Swyddog strategol Parc Cenedlaethol Eryri fydd yn gyfrifol am adfer natur a rheoli carbon.

(2) Amlinellodd y Prif Weithredwr newid mewn cyfrifoldebau Gweinidogol dros Dirweddau yng Nghymru. Mae AHNE, Mynediad i Gefn Gwlad a dynodiad Parc Cenedlaethol newydd wedi'u trosglwyddo i Lesley Griffiths AS gyda'r cyfrifoldeb am Barciau Cenedlaethol yn aros gyda Julie James AS.

(3) Roedd trefniadau ar y gweill i'r Cadeiryddion a'r Prif Weithredwyr gwrdd â'r Gweinidog i drafod effeithiau chwyddiant ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru.

(4) Roedd gwaith ar osod llinellau uwchben o dan y ddaear dros yr Afon Dwyryd wedi dechrau a bydd yn cymryd hyd at 5 mlynedd i'w gwblhau.

(5) Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod benodi Aelod i eistedd ar is-bwyllgor Cynllunio'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, ac yn unol â'r rheoliadau dylai'r Aelod naill ai fod yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd yr Awdurdod neu'n Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Cynghorydd Edgar Wyn Owen gynrychioli'r Awdurdod ar yr Is-bwyllgor Cynllunio.**

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

6. **Materion er gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

<u>Eitem Rhif 10 – Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri</u>

Mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd Mr. Nick Selwyn, Archwilio Cymru, i ddarparu rhagor o wybodaeth a dadansoddiad ynghylch pam fod busnesau twristiaeth yn teimlo nad yw’r Awdurdod yn taro’r cydbwysedd cywir rhwng ei ddau bwrpas. Hefyd, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai crynodeb o ganlyniad ymchwil Prifysgol Bangor i sbwriel yn y Parc Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau unwaith y byddai'r gwaith wedi ei gwblhau.

7. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth ac i’w gweithredu.

<u>Cyfarfod Awdurdod 25.09.19</u>

<u>Eitem Gweithredu 8 – Diweddariad ar y Gyllideb</u>

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd swyddogion yn trefnu dyddiad i'r Is-grŵp Asedau gyfarfod cyn gynted â phosibl.

Cyfarfod Awdurdod 09.12.20
Eitem Gweithredu 7 – Log Gweithredu
Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i bwysleisio'r angen i fwrw ymlaen â'r cam hwn fel blaenoriaeth gyda Phennaeth y Gwasanaeth Wardeinio a Mynediad ar ôl iddo ddychwelyd o absenoldeb salwch.

Cyfarfod Awdurdod 09.02.22
Eitem Gweithredu 13 – Cadernid yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff
Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai cyfarfod yn cael ei gynnull, a bydd yr Aelodau'n cael eu cefnogi gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

Cyfarfod Awdurdod 27.04.22
Eitem Gweithredu 9 – Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu
Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd adroddiad i adolygu 'Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chontractau' yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod a bydd staff yn cael yr hyfforddiant priodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.**

8. **Cyflwyniad i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru**
Derbyniwyd – Cyflwyniad gan Archwilio Cymru.

Adroddwyd – Croesawodd y Cadeirydd Mr. Nick Selwyn, Mr. Euros Lake, a Ms. Rachel Freitag o Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Cafodd yr aelodau gyflwyniad PowerPoint ar rôl yr Archwilydd Cyffredinol a gwaith Archwilio Cymru a rhoddwyd trosolwg iddynt o'r gwaith archwilio ariannol a pherfformiad a ymgymerir ag o, ac amseriad adroddiadau allweddol a gyflwynir yn flynyddol.

Diolchodd y Swyddog Adran 151 i Archwilio Cymru am eu cymorth, yn enwedig gyda'r cyfyngiadau amser a brofwyd eleni, a mynegodd y Prif Weithredwr hefyd ei werthfawrogiad i Archwilio Cymru am eu gwaith.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i Mr. Nick Selwyn, Mr. Euros Lake, a Ms. Rachel Freitag o Archwilio Cymru am y cyflwyniad.

**PENDERFYNWYD croesawu'r cyflwyniad, ac fe ddarperir copi i Aelodau, er gwybodaeth.**

9. **Datganiad Cyfrifon Drafft 2021/22**
Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth y Prif Swyddog Cyllid i'r Aelodau nodi cynnwys y Datganiad Cyfrifon drafft a'r trefniadau ar gyfer cyfnod yr arolygiad gan aelodau'r cyhoedd.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad yn fanwl a dywedodd y bydd angen cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon wedi'i archwilio (a'i addasu) i'r Aelodau ar 30 Tachwedd 2022 i'w gymeradwyo.

Yn codi wedi hynny, gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau ystyried a ddylid galw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod, neu ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi cynnwys y Datganiad Cyfrifon drafft 2021/22.**
2. **dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ar ran yr Awdurdod.**

10. **Adroddiad Blynyddol 2021-22**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i argymell mabwysiadu Adroddiad Blynyddol 2021-22 a chymeradwyo ei gyhoeddi erbyn 31ain Hydref 2022.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Adroddiad Blynyddol 2021-22 sy'n adrodd ar gynnydd Blwyddyn 1 o ran cyflawni amcanion Llesiant yr Awdurdod, fel y'i mabwysiadwyd yn Natganiad Llesiant yr Awdurdod 2021-26.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad.**
2. **mabwysiadu Adroddiad Blynyddol 2021-22 a chymeradwyo ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2022**.

11. **Cyfarfodydd Hybrid yr Awdurdod**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu i gymeradwyo'n ffurfiol argymhelliad bod yr Awdurdod a'r Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad yn cael eu cynnull fel cyfarfodydd hybrid byw.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu'r adroddiad a'r cefndir. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau nodi y byddai'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cael ei gynnal fel cyfarfod hybrid byw ar gyfer y sesiwn brawf gyntaf hon yn unig.

**PENDERFYNWYD**
1. **bod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 30ain Tachwedd 2022 yn cael ei gynnal fel cyfarfod hybrid byw arbrofol.**
2. **os bydd y cyfarfod uchod yn llwyddiannus, symud ymlaen gyda'r system hybrid fyw ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar 7 Rhagfyr a chyfarfod yr Awdurdod ar 8 Chwefror 2023.**

12. **Adroddiad y Gweithgor Aelodau**
Cyflwynwyd – Adroddiad y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022.

Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod wedi derbyn adroddiad Aquaterra ac adroddiad Small World Consulting a fydd yn cael eu harchwilio, a bydd strategaeth yn cael ei llunio i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

13. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**
Cyflwynwyd – Diweddariadau llafar ar gyfarfodydd diweddar sefydliadau y mae Aelodau wedi'u mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

Hysbyswyd yr aelodau am ddigwyddiad diweddar a gynhaliwyd ym Mhortmeirion lle lansiodd y Gweinidog Cyllid, Rebecca Evans, yr ymgynghoriad ar Ardoll Twristiaeth i Gymru.

Roedd y Prif Weithredwr ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod wedi mynychu, ochr yn ochr â chynrychiolwyr y gymuned a'r diwydiant twristiaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cynrychiolwyr yn y seminar wedi rhoi arweiniad, sef, petai'r ardoll dwristiaeth yn cael ei chefnogi, y byddai'n cael ei chymhwyso'n gyson ledled Cymru gyda chytundeb ar yr angen i ddangos yn glir fanteision ardoll.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.30**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**MERCHER 16 TACHWEDD 2022**

Y Cynghorydd Annwen Hughes (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL*** :

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorydd Jo Nuttall;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms. Nia Murray, Mrs. Naomi Jones, Ms. Helen Pye, Ms. A. Gaffey.

**Yn bresennol**
Ms. Rachel Freitag - Archwilio Cymru.

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Louise Hughes, Ifor Glyn Lloyd, Dilwyn Owain Roberts; Ms. Sarah Hattle.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

(1) diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oedd wedi mynychu'r Diwrnod Datblygu Aelodau diweddar ar 14 Hydref a ddechreuodd yn Yr Ysgwrn ac a orffennodd ar Rodfa Bren Benar, Dyffryn Ardudwy.

(2) adroddodd y Cadeirydd ar lwyddiant y Cyfarfodydd Blynyddol diweddar gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref ar 25 & 27 Hydref 2022.

(3) Adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfodydd diweddar a fynychwyd:-
- cyfarfod rhwng tri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru a Julie James MS, y Gweinidog dros Newid Hinsawdd.
- Seremoni Wobrwyo Caru Eryri, Bethesda
- cyfarfod gyda Chludiant Eryri

(4) cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 30 Tachwedd 2022 yn gyfarfod hybrid ac yn cael ei gynnal ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.

(5) cyfeiriodd y Cadeirydd at anhwylder diweddar y Cynghorydd Louise Hughes a mynegodd ddymuniadau gorau'r Awdurdod am adferiad llwyr a buan.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol:-

(1) croesawodd y Prif Weithredwr ganlyniad llwyddiannus dyfarniad Hillside a dywedodd y byddai'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yn cyflwyno adroddiad ar y dyfarniad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

(2) adroddiad ar y newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi, gosodiadau tymor byr a'r defnydd posibl o Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau ar 7 Rhagfyr 2022 .

(3) y ddau brif bwnc a drafodwyd yn y cyfarfod rhwng y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru a'r Gweinidog oedd y rhaglen waith, a osodwyd ar gyfer y Parciau Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, a setliad arfaethedig y gyllideb, a fydd yn aros yn sefydlog dros y 3 blynedd nesaf. Roedd y Gweinidog wedi cytuno i ofyn i'w swyddogion edrych ar y posibilrwydd o gynyddu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r flwyddyn ganlynol, ond roedd hefyd wedi awgrymu y dylai'r Awdurdod ystyried beth y gallai wneud llai ohono dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am ei dyraniad cyllideb gan Lywodraeth y DU ar 13 Rhagfyr 2022. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai recriwtio ar gyfer swyddi a ariennir o'r llinell sylfaen yn y tymor byr yn cael ei rewi dros dro yn awr, gyda dim ond swyddi a ariennir gan grant yn cael eu llenwi. Unwaith y bydd y Prif Weithredwr yn ymwybodol o'r her sydd o'i flaen, bydd yn cyfarfod ag uwch Aelodau a'r Tîm Rheoli, cyn cyflwyno adroddiad craffu i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau. Yna bydd adroddiad manwl yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar gyfer penderfyniad ffurfiol, er y dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd unrhyw frys ar unwaith.

(4) roedd y Prif Weithredwr, ynghyd â'r Rheolwr Partneriaethau a'r Pennaeth Ymgysylltu, wedi cyflwyno tystiolaeth ar draffig yng Ngogledd y Parc Cenedlaethol yn ddiweddar i'r Comisiynydd Traffig, a oedd yn fodlon â'r wybodaeth a gyflwynwyd.

(5) Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwrw ymlaen i sefydlu Parc Cenedlaethol newydd Bryniau Clwyd gyda nodyn technegol yn cael ei ryddhau cyn y Nadolig. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau maes o law.

(6) Byddai Ms. Sian Owen, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod, yn dechrau cyfnod o absenoldeb rhiant yn fuan a bydd Mr. David Williams, Swyddog Cyllid gyda Chyngor Gwynedd yn camu i mewn i gyflenwi yn ystod ei habsenoldeb. Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i'r Prif Swyddog Cyllid am gynorthwyo gyda'r trefniadau hyn.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

6. **Materion er Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

<u>Eitem Rhif 9 – Datganiad Cyfrifon Drafft 2021/22</u>

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd Archwilio Cymru wedi gallu ardystio Datganiad Cyfrifon 2021/22 mewn pryd ar gyfer y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 30ain Tachwedd oherwydd tystiolaeth annigonol gan y priswyr asedau. Byddai'r adroddiad nawr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 9 Chwefror 2023.

Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd Rachel Freitag o Archwilio Cymru eu bod yn aros am ragor o wybodaeth gan y priswyr asedau ac na fyddai unrhyw sancsiynau am beidio â bodloni'r terfyn amser, a bennwyd ar gyfer diwedd Ionawr 2023, gan mai dim ond disgwyliad gan Lywodraeth Cymru oedd hyn.

7. **Log Gweithredu**
Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth a chamau gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 27.04.22
Eitem Gweithredu 11 – Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn
Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Log Gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r diweddariadau i'r Log Gweithredu.**

8. **Rheoli'r Trysorlys – Adroddiad Interim 2022/23**
Cyflwynwyd – Adroddiad llafar gan y Prif Swyddog Cyllid, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli'r Trysorlys (h.y. Cod Rheoli'r Trysorlys CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau adrodd ar berfformiad rheoli'r trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Hysbyswyd yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi cymeradwyo ei Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022-23 ar 9 Chwefror 2022 a bod buddsoddiadau wedi'u gwneud yn unol â'r partïon a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sef Banc of Scotland, Barclays, HSBC, Nationwide, a Santander. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod cronfeydd yr Awdurdod yn parhau i fod yn ddiogel, ac amcangyfrifodd fod disgwyl i incwm llog fod £12k yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yng nghyllideb 2022/23.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad llafar, er gwybodaeth.**

9. **Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2023/24**
Cyflwynwyd – Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid i'r Aelodau nodi'r Gyllideb Sylfaenol fel y'i hamcangyfrifwyd ar gyfer 202 3/24 a'r sefyllfa ariannu a ragwelir.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a'r cefndir. Dywedodd fod trafodaethau ar setliad y gyllideb yn parhau gyda Llywodraeth Cymru a chytunodd yr Aelodau y byddai'n rhesymol ystyried defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i gwrdd ag unrhyw ddiffyg a ragwelir pan fyddai Setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 yn hysbys.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r gyllideb sylfaenol arfaethedig ar gyfer 2023/24, fel yr amlinellwyd.**

10. **2022/23 Diweddariad ar y Gyllideb**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i hysbysu'r aelodau o'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer 2022/23 ac adroddiad ar drosglwyddiadau sylweddol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r sefyllfa derfynol ragamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad, yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer saith mis cyntaf y flwyddyn ariannol, a rhoddodd ragor o wybodaeth am y ffigurau manwl.

Yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod yn gobeithio adennill canran o gostau'r Awdurdod yn dilyn dyfarniad llwyddiannus Hillside, ac mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd fod y gorwariant amcangyfrifedig o £20,000 ym Mhlas Tan y Bwlch. para 4.3) o'r gyllideb refeniw.

**PENDERFYNWYD**
**1. nodi cynnwys yr adroddiad.**
**2. cadarnhau'r trosglwyddiadau i/o'r cronfeydd wrth gefn fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.2 a'r golofn 'Trosglwyddiadau Newydd', fel yr amlinellir yn y tabl o dan baragraff 2.1 yr adroddiad.**

11. **Rheolau Sefydlog sy'n Ymwneud â Chontractau**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i fabwysiadu fersiwn ddiwygiedig o Reolau Sefydlog yr Awdurdod mewn perthynas â Chontractau.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r Rheolau Sefydlog diwygiedig yn ymwneud â Chontractau (Atodiad 1).

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl. Mewn ymateb i gwestiwn, sicrhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr Aelodau fod y Rheolau Sefydlog diwygiedig yn ymwneud â Chontractau yn darparu fframwaith i'r Awdurdod adeiladu ar ei bolisïau. Byddant yn darparu sylfaen i'r Awdurdod ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol yn ei bolisi caffael gwyrdd ac ati.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chontractau fel y'u cyflwynwyd. (Atodiad 1 yr adroddiad)**

12. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod Adroddiad Blynyddol drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'r holiadur cysylltiedig, ac i benderfynu pa ymateb oedd ei angen.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r holiadur ac amlinellodd y newidiadau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau ychwanegol a chytunwyd y dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gwblhau'r holiadur ar eu rhan.

**PENDERFYNWYD**
**1. derbyn yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd.**
**2. awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i ymateb i'r holiadur ar ran yr Awdurdod.**

13. **Proffil Risg yr Awdurdod**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i ddarparu crynodeb blynyddol o Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r gofrestr risg a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:-

- Risg Cyf 5 – Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri
  Cytunodd swyddogion na ddylid codi'r risg o risg ganolig i risg uchel a chytunwyd i adolygu'r golofn ar y chwith.

- Risg Cyf 7 – Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau
  Mewn ymateb i bryder a godwyd ynghylch lefelau staffio, sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir a Phennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yr Aelodau fod yr Awdurdod, gyda chefnogaeth partneriaid, sef yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, wedi gallu cynyddu capasiti ac yr oedd y sefyllfa yn awr dan reolaeth.
- Risg Cyf 17 – Sicrhau dyfodol tymor hir Plas Tan y Bwlch
  Gofynnodd Aelod a ddylid cynyddu'r risg yn dilyn yr adroddiad carbon a gomisiynwyd yn ddiweddar sy'n datgan bod Plas Tan y Bwlch yn cyfrannu at bron i hanner cyllideb garbon yr Awdurdod. Bydd costau i sicrhau gwelliannau carbon, yn ogystal â buddsoddiad ariannol mawr i ddod â ffabrig yr adeilad i fyny i'r safon angenrheidiol. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai colofn ychwanegol yn cael ei chynnwys yn y Gofrestr Rheoli Asedau i roi trosolwg i'r Aelodau o ymrwymiadau carbon yr Awdurdod. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Risg Cyf. 17 yn cyfeirio at y risg i'r Awdurdod o barhau i reoli Plas Tan y Bwlch. Os mai'r penderfyniad fydd peidio â pharhau, ni fyddai'n cael effaith ariannol fawr ar yr Awdurdod.

  **PENDERFYNWYD**
  1. **nodi cynnwys yr adroddiad, er gwybodaeth.**
  2. **adolygu colofn chwith Cyf Risg 5, fel yr amlinellwyd uchod.**

14. **Enwau Lleoedd Parc Cenedlaethol Eryri**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol i roi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd y Grŵp Llywio Enwau Lleoedd a chyflwyno egwyddorion drafft ar gyfer enwau lleoedd topograffaidd ym Mharc Cenedlaethol Eryri (Atodiad 1).

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yr adroddiad a'r cefndir ac amlinellodd waith y Grŵp Tasg a Gorffen yn fanwl, yr egwyddorion drafft, a rhaglen waith arfaethedig y Grŵp Llywio. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng ngwanwyn 2023 a bydd yn cynnwys rhestr safonol arfaethedig o enwau llynnoedd yn y Parc Cenedlaethol.

Gofynnwyd i'r aelodau edrych yn benodol ar y defnydd o 'Yr Wyddfa' ac 'Eryri' yn y cyfarfod, ac yn dilyn trafodaeth lawn gwnaed y sylwadau a ganlyn:-
- Croesawodd yr aelodau'r adroddiad cynhwysfawr a oedd yn rhoi esboniad o fater cymhleth ac yn amlinellu ehangder hanes ac esblygiad iaith.
- nodi bod y ddeiseb, yn galw ar yr Awdurdod i ffurfioli'r defnydd o'r enwau Cymraeg *Eryri* ac *Yr Wyddfa,* bellach wedi cyrraedd 7000 o enwau.
- haerai rhai Aelodau y dylai'r Awdurdod ddefnyddio'r geiriau Cymraeg *Eryri* a'r *Wyddfa* yn unig. Nododd yr aelodau fod Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu polisi diwygiedig i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei flaenoriaethu ym mhob agwedd o'u gwaith.
- roedd y cyd-destun economaidd hefyd yn ystyriaeth a theimlai'r Aelodau y dylai'r Awdurdod fod yn hyblyg a sensitif yn ei agwedd.
- mewn ymateb i gwestiwn, sicrhaodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yr Aelodau, fel rhan o'r broses, y byddai defnyddio'r enwau Saesneg mewn cromfachau yn para am gyfnod o tua 2 flynedd, gyda'r bwriad o ddefnyddio enwau Cymraeg ym mhob cyd-destun wrth i gyhoeddiadau a deunyddiau dehongli'r Awdurdod gael eu diweddaru.
- nododd Aelod fod Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu newid y ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

- cytunodd Aelod na fyddai newid agwedd yn rhywbeth fyddai'n cael ei gyflawni dros nos a nododd fod llawer o gwmnïau yn defnyddio Eryri ar gyfer eu brandio, a oedd cyfle yma i gadw "Eryri" yn arbennig i'r ardal?
- Trafododd yr aelodau enwau sy'n gysylltiedig â mynydda a dringo a'u tarddiad. Awgrymodd Aelod gan fod yr enwau hyn yn cael eu creu gan unigolion di-Gymraeg trwy eu sgiliau eu hunain, y byddai'n amharchus eu newid. Dylid cydnabod yr elfennau o fod yn droedleoedd a gobeithio y byddai grwpiau dringo yn fodlon trafod gyda'r gymuned.
- rhoddodd y Pennaeth Ymgysylltu fanylion i'r aelodau am agweddau technegol eu penderfyniad. Bydd algorithmau defnydd Google, Facebook, a Trydar / Twitter, a defnydd parhaus o Eryri mewn cromfachau yn cynnal safle'r Parc Cenedlaethol ar frig y dudalen sy'n holl bwysig i draffig i'r wefan, hyd nes y bydd ymwybyddiaeth gynyddol o'r enw Eryri yn unig, yn cael yr un canlyniad dros amser.
- Byddai swyddogion yn cyhoeddi datganiad i'r wasg i hysbysu'r cyhoedd o benderfyniad yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD**

1. **mabwysiadu'r Egwyddorion Enwau Lleoedd yn Atodiad 1 fel canllaw ar gyfer defnydd yr Awdurdod o enwau lleoedd.**
2. **cymeradwyo defnyddio'r enwau *Yr Wyddfa* ac *Eryri* yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan roi disgresiwn i swyddogion ddefnyddio'r termau, *Yr Wyddfa (Snowdon)* ac *Eryri (Snowdonia)* yn Saesneg, pe byddai'r cyd-destun yn mynnu hynny at ddibenion addysg ac ymgysylltu . Rhagwelir mai'r *Wyddfa* ac *Eryri* fydd y ffurfiau arferol a chyffredin ac mai dros amser, wrth i ymwybyddiaeth gynyddu, fydd yr unig ffurfiau a ddefnyddir gan yr Awdurdod. Dylai'r newid ddigwydd dros amser, wrth i gyhoeddiadau a dehongliadau'r Awdurdod gael eu diweddaru.**

15. **Adroddiad y Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 7 Medi 2022, er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

16. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**

Nid oedd yr aelodau wedi mynychu cyfarfodydd allanol fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

17. **Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:-

(1) Cofnodion Cyfarfod Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2022 .

Yn codi wedi hynny,

Para. 7 – Cymorth i Aelodau

mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd y cyfarfod i drafod cymorth Aelodau wedi'i gynnal eto. Dywedodd fod cyfleoedd hyfforddi eraill wedi'u darparu, megis y Cwrs Anwytho i Aelodau Newydd yn Northumberland a Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru sy'n cael ei drefnu a'i gynnal gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mis Mai 2023. Dywedodd ymhellach fod Anna Jones wedi cael ei phenodi i un o'r tair swydd Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a gynhelir gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, roedd ei rôl yn cynnwys datblygu Aelodau ac roedd y gwaith strategol o ddatblygu aelodau bellach ar yr agenda.

(2) Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 .

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

18. **Cynhadledd Europarc 2022**

Derbyniwyd - Cyflwyniad sleidiau gan Mr. Tim Jones a Mr. Brian Angell, Aelodau a Benodwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi mynychu Cynhadledd Europarc 2022 yn Argelès-sur-Mer, Ffrainc. Thema'r Gynhadledd oedd 'Newid yn yr Hinsawdd: Parciau Cydnerth' ac roedd pwyslais y Gynhadledd ar - Addasu neu Liniaru?
Cafodd yr aelodau hefyd weld ffilm fer o'r enw 'Tribute to our Landscape'.

Adroddwyd – Diolchodd Mr. Brian Angell a Mr. Tim Jones i'r Awdurdod am y cyfle i fynychu Cynhadledd Europarc, a oedd wedi bod yn eithriadol. Diolchodd yn arbennig i Judith Orritt, Cynorthwyydd Personol y Prif Weithredwr, am y deithlen a'r trefniadau teithio. Yn y Gynhadledd, cyflwynwyd gwobr i Eryri am fod yn aelod o Ffederasiwn Europarc am 25 mlynedd.

Cynhelir Cynhadledd y flwyddyn nesaf yn Leeuwarden – Friesland Nederlands rhwng 3 a 6 Hydref 2023 a'r thema fydd 'Teyrnged i'n tirwedd, lle mae natur a phobl yn cydgordio' ac anogwyd yr Aelodau i dderbyn y gwahoddiad i fynychu pe baent yn cael y cyfle.

**PENDERFYNWYD diolch i'r Aelodau a chroesawu'r cyflwyniad.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.10**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 8 CHWEFROR 2023**

Cynghorydd Annwen Hughes (Gwynedd) (Cadeirydd)

***YN BRESENNOL***:

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr D. Edwards, Mr. David Williams, Ms. Angela Jones, Ms. Helen Pye, Ms. A. Gaffey.

**Yn bresennol**
Ms. Rachel Freitag - Archwilio Cymru.

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Louise Hughes, Kim Jones, Dilwyn Owain Roberts; Ms. Naomi Luhde-Thompson.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol , gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, ei fod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

(1) **Cydymdeimlad**

Cyfeiriodd y Cadeirydd gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Caerwyn Roberts, cyn Gadeirydd ac Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ar ran yr Awdurdod, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i dalu teyrnged i Caerwyn, a fu'n Aelod o'r Awdurdod am 30 mlynedd ac yn Gadeirydd am ddeunaw o'r blynyddoedd hynny. Fe'i penodwyd yn gyntaf yn 1987 gan y Swyddfa Gymreig ac yna gan Gyngor Gwynedd, pan etholwyd ef yn Aelod o'r Cyngor hwnnw yn 1999. Diolchodd y Cadeirydd i Caerwyn am hyrwyddo Eryri ar bob cyfle a chyfeiriodd at ei lwyddiannau niferus a'r profiad a ddaeth i'r Awdurdod. Roedd Caerwyn wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau prosiect Hafod Eryri, ac yn ddiweddarach chwaraeodd ran flaenllaw yn y trafodaethau i alluogi'r Awdurdod i brynu'r Ysgwrn. Roedd yn aelod gweithgar o Barciau Cenedlaethol y DU ac wedi gwasanaethu fel eu Cadeirydd. Bu Caerwyn hefyd yn Aelod gwerthfawr o Gyngor Cymuned Harlech am dros 40 mlynedd. Mynegodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, gydymdeimlad dwysaf â'i wraig Bet, a'i blant, Iwan, Bryn, Iola a'u teuluoedd.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cadeirydd am y cyfle i fynegi ei werthfawrogiad o waith Caerwyn a chyfleu cydymdeimladau ar ran staff yr Awdurdod. Roedd 30 mlynedd Caerwyn gyda'r Awdurdod wedi rhoi sefydlogrwydd, ac roedd y staff yn ddiolchgar iawn am hynny. Roedd yn uchel ei barch yn y sector wleidyddol a'r sector amaethyddol, a dyfarnwyd

MBE iddo, ac yna OBE am ei waith yng nghymuned Harlech. Roedd bob amser yn ystyriol iawn o staff yr Awdurdod a oedd yn dymuno cydnabod ei gyfraniad. Roedd y Prif Weithredwr yn bersonol ddiolchgar am ei gefnogaeth gyson ac er bod ei salwch wedi bod yn un creulon, roedd Caerwyn yn dal i hel atgofion am waith y Parc Cenedlaethol. Mynegodd y Prif Weithredwr ei gydymdeimlad dwysaf â'r teulu ar ran holl staff yr Awdurdod.

Safodd yr aelodau a'r swyddogion fel arwydd o barch.

(2) adroddodd y Cadeirydd ar y cyfarfodydd a fynychwyd ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod:-
- roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi cyfarfod yn ddiweddar ag Archwilio Cymru
- cyfarfodydd i drafod sefyllfa ariannol yr Awdurdod gan gynnwys cyfarfod diweddar gyda Sian Gwenllian AS
- cyfarfod gyda Chymdeithas Eryri, a
- chwrs hyfforddi cyfryngau diweddar ym Mhlas Tan y Bwlch.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

Derbyniwyd – Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar y canlynol:-
- rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar sefyllfa ariannol gyfredol yr Awdurdod. Ers cyfarfod diweddar y Gweithgor Aelodau, roedd wedi cyfarfod â Janet Finch-Saunders AS a byddai'n cyfarfod â Mabon ap Gwynfor AS ar 9 Chwefror 2023.
- dywedodd y Prif Weithredwr y byddai ffigurau dyraniad grant terfynol Llywodraeth Cymru yn cael eu cadarnhau yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth. Os nad oedd cynnig gwell, bydd y Prif Weithredwr yn cynnull cyfarfod o'r Panel Aelodau i ystyried yr her ariannol.
- roedd rhewi recriwtio bellach wedi'i ddileu i leddfu'r pwysau ar staff yr Awdurdod.
- dywedodd y Prif Weithredwr fod Archwilio Cymru yn cynnal Adolygiad Cenedlaethol o Lywodraethu mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Roedd swyddogion o Archwilio Cymru yn bresennol yn rhai o gyfarfodydd yr Awdurdod i arsylwi, ac fel rhan o'r adolygiad byddai nifer o staff ac Aelodau'n cael eu gwahodd i fynychu cyfweliadau gyda swyddogion o Archwilio Cymru.
- roedd tendrau yn cael eu ceisio ar hyn o bryd gan Gyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a Pharc Cenedlaethol Eryri ar gyfer Gwasanaeth Sherpa'r Wyddfa, a fydd am gyfnod o bum mlynedd ac a fydd yn darparu gwasanaeth gwell. Mae'r Awdurdod yn parhau i gyfrannu incwm o dri o'i feysydd parcio i gefnogi'r gwasanaeth hwn.
- Bydd Hafod Eryri yn ail agor ar gyfer tymor 2023 a bydd swyddogion yn cynnal ymweliad safle gyda’r Cwmni Rheilffordd i asesu a fydd unrhyw gostau ychwanegol i’r Awdurdod.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Nododd yr Aelodau gywiriad i'r Rhaglen sef mai'r Prif Weithredwr ac nid y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a gyflwynodd Eitem 15.
Yn codi wedi hynny, datganodd Mr. Iwan Jones a Mr. Jonathan Cawley fudd yn eitemau 15 ac 16 ar y Rhaglen ac aethant allan o'r cyfarfod tra'r oedd y materion hyn yn cael eu trafod.

5. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7. **Log Gweithredu**
Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth a chamau gweithredu.

<u>Cyfarfod Awdurdod 19.12.20</u>
<u>Eitem Gweithredu 7 – Log Gweithredu</u>
Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Log Gweithredu.

<u>Cyfarfod Awdurdod 13.10.21</u>
<u>Eitem Gweithredu 11 – Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu – Enwau Lleoedd</u>
Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Log Gweithredu.

<u>Cyfarfod Awdurdod 09.02.22</u>
<u>Eitem Gweithredu 13 – Cadernid yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff</u>
Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Log Gweithredu.

<u>Cyfarfod Awdurdod 27.04.22</u>
<u>Eitem Gweithredu 9 – Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu</u>
Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Log Gweithredu.

<u>Cyfarfod Awdurdod 15.06.22</u>
- <u>Eitem Gweithredu 10 – Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri</u>
  Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Log Gweithredu.
- <u>Eitem Gweithredu 22 – Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill</u>
  Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir bod y trefniadau bellach ar y gweill, a gellid dileu'r weithred o'r Log Gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu a dileu'r camau gweithredu fel yr amlinellwyd.**

8. **Cyfrifon Terfynol 2021/22**
Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd – Cynghorodd y Prif Swyddog Cyllid bod y gwaith i gwblhau'r cyfrifon yn symud ymlaen ac roedd Rachel Freitag o Archwilio Cymru yn y cyfarfod i roi diweddariad byr i'r Aelodau. Eglurodd Rachel Freitag fod anawsterau wedi codi oherwydd yr angen i ail-werthuso asedau'r Awdurdod bob 5 mlynedd. Cyflawnwyd y gwaith hwn gan briswyr allanol ac arhosir am ragor o fanylion. Gan fod y ffigyrau yn berthnasol i'r cyfrifon, nid oedd Archwilio Cymru yn gallu rhoi barn ar hyn o bryd. Nododd yr Aelodau fod sawl Awdurdod Lleol arall mewn sefyllfa debyg.

Yn codi wedi hynny, nododd y Prif Swyddog Cyllid ei fod yn obeithiol y byddai Cyfrifon Terfynol 2021/22 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 22ain Mawrth 2023. Os nad felly fydd hi, byddai Cyfrifon Terfynol 2021/22 yn cael

eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 26ain Ebrill 2023. Diolchodd y Prif Swyddog Cyllid i Rachel Freitag, Archwilio Cymru, am ei chefnogaeth yn y mater hwn a diolchodd i David Williams, y Swyddog Cyllid am ei waith.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**
2. **cadarnhau bod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wedi dirprwyo awdurdod i gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ar ran yr Awdurdod.**

9. **Cyllideb ac Ardoll Yr Awdurdod ar Awdurdodau Cyfansoddol 2023/24**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn gofyn am gymeradwyaeth i gyllidebau refeniw a chyfalaf 2023/24 ac i godi ardollau ar awdurdodau cyfansoddol ar sail ffigwr dyraniad grant drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Awdurdod.

Adroddwyd – Hysbysodd y Prif Swyddog Cyllid yr Aelodau ei fod yn cyflwyno'r adroddiad am y tro olaf, gan y byddai'n ymddeol ym mis Mehefin 2023 ar ôl 20 mlynedd gyda'r Awdurdod. Dywedodd fod dyraniad grant drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 yn siomedig, a chan nad oes gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol unrhyw fecanwaith i gynyddu cyllid refeniw, argymhellodd fod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y canlynol:-
- Diolchodd yr Aelodau i'r Prif Swyddog Cyllid am ei ymrwymiad i waith yr Awdurdod ac am ei arbenigedd dros yr 20 mlynedd.
- Bu'r Aelodau a'r swyddogion yn trafod goblygiadau llif arian yr Awdurdod yn y dyfodol wrth ymgymryd â phrosiectau mawr fel y Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r prosiectau hyd nes y derbynnir y taliad terfynol. Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Prif Weithredwr sut yr ariennir prosiectau o'r fath gyda thaliad cychwynnol ar y dechrau, taliad pellach hanner ffordd ac yna taliad terfynol ar ôl eu cwblhau.
- Atodiad 4 - mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd swyddogion mai'r ffigwr o £462,097 ar gyfer Plas Tan y Bwlch oedd y gost refeniw nad oedd yn cynnwys y costau cynnal a chadw ychwanegol y cyfeirir atynt yn y Cynllun Asedau. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y ffigwr yn cynnwys taliadau cyfalaf o £225k, nad oedd yn gost arian parod i'r Awdurdod ac yn cynrychioli dibrisiant ar draws oedran yr ased. Cytunodd y Prif Swyddog Cyllid y gallai'r ffigwr fod yn amcangyfrif rhy isel os oedd angen gwneud gwaith brys i gynnal a chadw'r adeilad.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd ffigwr gwaelodlin yn y gyllideb i gefnogi'r prosiect Awyr Dywyll a oedd yn cael ei gefnogi ar hyn o bryd trwy amrywiol fidiau a gweithio gyda phartneriaid. Cadarnhaodd hefyd nad oedd cyllideb benodol ar gyfer gwaith sero carbon, ac y byddai hyn yn cael ei sefydlu pan fydd Strategaeth Garbon yn cael ei datblygu.
- trafododd swyddogion ac Aelodau gostau nas rhagwelwyd megis y gorwariant posibl ar gynlluniau cyfalaf, y setliad cyflog ar gyfer 2023/24 a mesurau lliniaru eraill a chytunwyd gan nad oedd y rhain yn hysbys, y byddent yn cael eu trin wrth iddynt godi.
- dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y dylai ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod, ond byddai'r gallu i wneud hynny'n dibynu ar setliadau grant Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod cais am arian cyfalaf ychwanegol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a fyddai'n bodloni eu blaenoriaethau pe bai unrhyw lithriad yn eu cyllideb yn dod ar gael.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi cynnwys yr adroddiad.**
2. **cymeradwyo'r gyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2023/24 fel y nodir yn yr adroddiad a'r atodiadau.**
3. **awdurdodi codi ardollau ar y ddau gyngor cyfansoddol i gyfanswm o £1,373,262 yn unol â pharagraff 6.3 o adroddiad y Prif Swyddog Cyllid.**

10. **Strategaeth Gyfalaf 2023/24**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid i gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24 a'r argymhellion yn ymwneud â'r Cod Darbodus.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a rhoddodd yr aelodau ystyriaeth fanwl iddo.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi nad oedd bwriad i fenthyca arian at ddibenion cyfalaf, fodd bynnag, argymhellwyd y cyfyngiadau isod ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus mewn argyfwng neu petai angen gwariant ar fyr rybudd.**
2. **cymeradwyo'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig presennol o £500,000 ar gyfer 2023/24, a Ffin Weithredol o £100,000.**
3. **na ddylid gosod terfyn ar y gyfran o log sy'n daladwy ar gyfradd newidiol.**
4. **mabwysiadu'r Strategaeth Benthyca Cyfalaf ar gyfer 2023/24 fel yr amlinellir ym mhara. 3.2 o'r adroddiad a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus (gweler y tablau dan baragraffau 2.2, 3.2 a phara. 7.1 o'r adroddiad).**
5. **mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 202 3/24 fel yr amlinellwyd ym mharagraffau. 3.5 i 3.14 o'r adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mharagraff 3.6.**

11. **Adroddiad y Panel Cyfweld ar gyfer Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i benodi aelodau i Banel Cyfweld i ddewis Aelodau Annibynnol ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir.

**PENDERFYNWYD penodi Panel o Aelodau, fel y nodir i bara. 1.3 o'r adroddiad, ar gyfer cyfweld darpar aelodau i'r Pwyllgor Safonau. Penodwyd yr Aelodau a ganlyn:-**
**Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd yr Awdurdod), Y Cynghorydd Edgar Owen (Is-Gadeirydd yr Awdurdod), Mr. G. Iwan Jones (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol), ynghyd ag un Aelod Lleyg, sef Mr.Tim Jones wrth gefn.**

12. **Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri – Cynllun Strategol**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau i fabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri (2035) yn ffurfiol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau'r adroddiad a rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynhyrchu'r Cynllun Strategol. Nododd yr aelodau mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd oedd yr unig ddau awdurdod lleol yn y DU sydd â strategaeth o'r fath. Cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau gyfranogiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac y byddent yn rhan o'r grŵp llywio,

gyda thrafodaethau pellach ar y gweill ynghylch eu rôl ar y bartneriaeth ac a fyddai hyn fel sylwedyddion neu aelodau llawn. Dywedodd y Rheolwr Partneriaethau fod y Cynllun bellach wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd a'i fod yn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd yr wythnos nesaf. Unwaith y bydd y Cynllun wedi'i fabwysiadu, byddai'n cael ei lansio'n ffurfiol cyn yr haf.

Yn codi wedi hynny, gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau a ganlyn:-

- diolchodd y Pennaeth Ymgysylltu i'r Rheolwr Partneriaethau am ei gwaith a fydd yn galluogi'r Awdurdod i symud ymlaen gyda thwristiaeth gynaliadwy yn yr ardal.
- Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a'r strategaeth hefyd a diolchwyd i'r Rheolwr Partneriaethau am ei gwaith.
- Nododd yr aelodau y bydd cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu unwaith y bydd y bartneriaeth wedi'i sefydlu. Cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau y bydd y cynllun gweithredu yn cael ei adolygu'n flynyddol.
- gofynnodd Aelod a yw'r strategaeth yn gwerthuso effaith twristiaeth o ran cost atgyweirio llwybrau troed sydd wedi'u difrodi, casglu sbwriel ac ati, yn ychwanegol at yr hyn a ddisgwylir ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau y bydd gwaelodlin yn cael ei nodi, a dywedodd y Prif Weithredwr pe byddai treth dwristiaeth yn cael ei sefydlu yn y dyfodol, byddai'r math hwn o waith manwl yn cael ei wneud bryd hynny.
- cadarnhaodd swyddogion y byddai'r adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri yn edrych yn fanwl ar bolisïau cynllunio yn y dyfodol a allai effeithio ar y strategaeth.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Ymgysylltu fod marchnata brand Eryri, er bod elfennau yn y strategaeth hon, yn dod o dan Strategaeth Ymgysylltu'r Parc Cenedlaethol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r 'Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri (2035)' fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

13. **Adroddiadau Gweithgorau**

Cyflwynwyd – Adroddiadau o gyfarfodydd y Gweithgorau.

(1) **Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiadau o gyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 19 Hydref a 7 Rhagfyr 2022.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau.**

(2) **Cyd Weithgor Lleol**

Cyflwynwyd – Adroddiad cyfarfod y Cyd Weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2022.

Yn codi wedi hynny, rhoddodd y Prif Weithredwr y diweddariadau a ganlyn:-

<u>Para. 5 – Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).</u>
ymateb terfynol wedi'i baratoi a'i anfon ymlaen.

<u>Para. 7 – Gweithio Hybrid</u>
Byddai holiadur yn cael ei anfon at yr holl staff yn y dyddiau nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

14. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**
Nid oedd yr Aelodau wedi mynychu unrhyw gyfarfodydd allanol fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

15. **Telerau ac Amodau Gwasanaeth**
**Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr**
**Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972: Eithriad rhag datgelu dogfennau.**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod i eithrio'r adroddiad dilynol.

**PENDERFYNWYD eithrio'r adroddiad "Telerau ac Amodau Gwasanaeth – Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr" rhag cael ei ddatgelu am y rhesymau a amlinellwyd.**

16. **Telerau ac Amodau Gwasanaeth**
**Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr**
Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol i adrodd ar ganlyniad y Panel Aelodau ac i ystyried argymhellion y Panel.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn fanwl. Ymddiheurodd fod y Papur Trafod, fel y'i hystyriwyd gan yr Uwch Aelodau, wedi'i hepgor o'r Rhaglen a bod copi yn cael ei anfon ar wahân.

Nododd yr Aelodau'r ystyriaethau a chasgliad y Panel o Uwch Aelodau a drafododd yr angen am gynllunio olyniaeth hefyd. Cytunodd yr Aelodau hefyd, er mwyn cwblhau'r broses, y dylid ystyried telerau ac amodau'r Prif Weithredwr yn awr.

**PENDERFYNWYD**
1. **penodi cymorth technegol ychwanegol ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli (adnodd wedi'i nodi).**
2. **cyflwyno trefniadau lle caniateir TOIL i Gyfarwyddwyr weithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau.**
3. **caniatáu Dydd Gŵyl Dewi fel diwrnod o wyliau dewisol i'r Cyfarwyddwyr.**
4. **cefnogi cynnydd o ddau bwynt cyflog yng nghyflog y Cyfarwyddwyr i adlewyrchu cyfrifoldebau uwch, wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2022.**
5. **bydd y Swyddog Adnoddau Dynol i fonitro cyflogau uwch swyddogion dros y 3 blynedd nesaf.**
6. **bod yr Awdurdod yn parhau i gefnogi swyddogion gyda hyfforddiant rheoli ac arwain, a lle bo'n briodol, profiad gwaith perthnasol.**
7. **y dylai'r Panel, ynghyd â'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, ystyried telerau ac amodau'r Prif Weithredwr ymhellach, a chyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf yr Awdurdod os oes angen.**
8. **bod gan y Panel, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Dîm Rheoli.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI DYDD MERCHER 18 MAI 2022**

Cynghorydd Elwyn Edwards (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
y Cynghorydd Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Ms Jane Jones, Ms Emma Watkins, Mr. Dafydd Thomas, Ms. Anwen Gaffey.

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Mike Stevens; Ms. Sarah Hattle.

Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol:-

- bod y cyfarfod yn destun Rheoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a
  - bod Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi a bod yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
  - nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
  - roedd y cyfarfod yn cael ei gofnodi er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion a bydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

   i) Croeso
   Croesawodd y Cadeirydd Ms. Naomi Luhde-Thompson, yr Aelod newydd o Lywodraeth Cymru, i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod Ms. Thompson wedi cael hyfforddiant cynllunio cyn y cyfarfod.

   ii) Dymuniadau Gorau
   Mynegodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau a diolch i'r Aelodau a oedd yn mynychu eu cyfarfod olaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

2. **Datgan Buddiant**
   Datganodd y Cynghorydd John Pughe Roberts fuddiant yn eitem 4 (2) ar y Rhaglen ac aeth allan o'r cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod.

3. **Cofnodion**
   Yn ddarostyngedig bod y cofnodion yn cael eu cywiro i gofnodi bod y Cynghorydd Wyn Ellis Jones yn bresennol yn y cyfarfod, derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar yr $2^{il}$ o Fawrth 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**
**Cyflwynwyd** – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. **Adroddiadau Diweddaru**
**Cyflwynwyd** – Adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

6. **Penderfyniadau Dirprwyedig**
**Cyflwynwyd a Chafwyd** – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad** .

7. **Apêl Cynllunio**
**Cyflwynwyd a Derbyniwyd** – copi o'r penderfyniad apêl a ganlyn:-
Apêl gan Ms. Jill Hughes yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer trosi'r cyn storfa anecs / byncws yn lety anecs un ystafell wely i brif adeilad hostel Hostel Mynydd Eryri, Tai Newyddion, Nant Ffrancon, Bethesda. LL57 3DQ
(Caniatawyd yr apêl)

Nododd aelodau a swyddogion y byddai rhestr yr Awdurdod o adeiladau traddodiadol yn cael ei hail-archwilio fel rhan o'r gwaith monitro blynyddol a wneir gan swyddogion Polisi Cynllunio.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.15**

## ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 18 Mai 2022

**Rhif yr Eitem.**

4. **Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**

(1) NP 5/57/1058B – Codi estyniad i ddarparu gofod gweithdy a dosbarth ychwanegol, a maes parcio ychwanegol, Uned 1, Parc Menter Marian Mawr, Dolgellau. LL40 1UU
**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd swyddogion fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael iddynt wrth asesu ceisiadau ac y bydd Llywodraeth Cymru yn ail-gyhoeddi NCT 15 a'r mapiau newydd y flwyddyn nesaf.
**PENDERFYNWYD gwrthod** caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

(2) NP 5/74/498 – Adeiladu trac i ddarparu mynediad i fawndiroedd mewn cysylltiad â phrosiect adfer mawndiroedd, Pennant, Llanymawddwy. SY20 9AJ
**Adroddwyd** – Cyflwynodd y swyddog achos yr adroddiad a'r cefndir.
**PENDERFYNWYD rhoi** caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

5. **Adroddiadau i roi Diweddariad**

(1) Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeiladau Rhestredig a gyflwynwyd o dan bwerau dirprwyedig a Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth – **Er Gwybodaeth**

NP5/65/ENF115A – Tir yn Hengwrt, Llanelltyd
Rhoddwyd diweddariad llafar i'r aelodau. Bydd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn darparu adroddiad diweddaru i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

NP5/55ENFL142A – 3 Glandwr, Bryncrug.
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf a bod y mater yn cael ei symud ymlaen. Bydd adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno maes o law.

NP5/54/ENFLB33M – Neuadd Nannau, Llanfachreth
Rhoddwyd diweddariad llafar i'r aelodau. Bydd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn darparu adroddiad diweddaru i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

(2) Cytundebau Adran 106 – **Er Gwybodaeth**
NP5/61/632 – Merthyr Isaf, Hwylfa'r Nant, Harlech.
Cytunodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro i drafod gyda'r swyddog achos a rhoi diweddariad ar wahân i'r Aelod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

(3) Ceisiadau heb eu penderfynu lle mae mwy na 13 wythnos wedi mynd heibio – **Er Gwybodaeth**
NP5/61/T558D – Hen Gapel Tabernacl, Stryd Fawr, Harlech .
Byddai'r Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn gofyn i'r swyddog achos roi diweddariad.

NP5/74/496 – Gwastadgoed, Aberangell.
Byddai'r Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn gofyn i'r swyddog achos roi diweddariad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 29 MEHEFIN 2022**

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms. Sarah Hattle, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Mr.Owain Wyn;

**Swyddogion**
Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Mrs. Jane Jones, Mr. Richard Thomas, Ms. Elen Hughes, Ms. Sophie Berry, Mr. Dafydd Thomas, Mrs. Sarah Roberts.

Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol:-

- bod Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi a bod yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei gofnodi er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion a bydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn ddiweddarach.

1. **Cadeirydd**
**Etholwyd y Cynghorydd Elwyn Edwards yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.**
Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Is-Gadeirydd**
**Etholwyd y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd yn Is-Gadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.**
Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. **Ymddiheuriadau**
Cynghorydd. Meryl Roberts; Mr Tim Jones.

4. **Datgan Budd**
Datganodd Ms.Tracey Evans fuddiant personol yn eitem 10 ar yr agenda o dan baragraffau 10 (2)(c)(i) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

5. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 18 Mai 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Baneli Ymweld y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i benodi Aelodau ar Baneli Ymweld yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD penodi Aelodau fel a ganlyn:-**

**Panel Ymweld y Gogledd**
(9 Aelod)

1) Cyng. June Jones
2) Cyng. Kim Jones
3) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
4) Cyng. Jo Nuttall
5) Cyng. Edgar Wyn Owen
6) Cyng. Dilwyn Owain Roberts
7) Ms. Tracey Evans
8) Mr Tim Jones
9) Ms. Naomi Luhde-Thompson

**Panel Ymweld y De**
(9 Aelod)

1) Cyng. Elwyn Edwards
2) Cyng. Annwen Hughes
3) Cyng. Louise Hughes
4) Cyng. Elf Powell Roberts
5) Cyng. John Pughe Roberts
6) Cyng. Meryl Roberts
7) Mr Brian Angell
8) Mrs Sarah Hattle
9) Ms Delyth Lloyd

7. **Canllawiau Cynllunio Atodol: Tirweddau Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru.**

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan Reolwr Polisi Cynllunio, Cyngor Môn a Gwynedd a Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol yr Awdurdod i gymeradwyo'r Canllaw Cynllunio Atodol: Tirweddau Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru i'w fabwysiadu.

Adroddwyd – Cyflwynodd Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol yr adroddiad a'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft a chadarnhaodd fod Cabinet Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu'r CCA y diwrnod cynt heb newidiadau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft a gwnaethant y sylwadau a ganlyn: -

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd Hanesyddol faint o ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol oedd wedi'u cynnwys yn y CCA a chyfeiriodd at y map ar dudalen tri deg dau o'r rhaglen.
- croesawodd aelod y ddogfen, ac mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd y byddai'r ddogfen fel arfer yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, ond bod modd hefyd cylchredeg e-bost neu roi postiad ar y cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i bobl bod y ddogfen wedi cael ei mabwysiadu.
- Teimlai Aelod ei bod yn bwysig hysbysu'r Cynghorau Cymuned yn yr ardaloedd perthnasol. Cytunodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd y gellid cynnwys nodyn byr yn yr e-bost yn hysbysu'r Cynghorau Cymuned perthnasol o'r newidiadau a wnaed. Teimlai'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai hefyd yn fuddiol hysbysu Asiantau Cynllunio a Datblygwyr.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd er nad oedd ardal Blaenau Ffestiniog yn y Parc Cenedlaethol, byddai'r Awdurdod yn cael ei hysbysu fel ymgynghorai ar unrhyw geisiadau a gyflwynir.
- Hysbysodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd yr aelodau am y broses o adolygu'r CCA a'r Cynllun Datblygu Lleol. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd hefyd fod y ddogfen mor barod â phosibl ar gyfer y dyfodol.
- Nododd Aelod wall teipograffyddol ar dudalen 42 yn yr adroddiad Cymraeg a ddylai ddarllen “ cydran ” yn lle “di cydran”.
- Mewn ymateb i gais gan aelod, hysbysodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd yr Aelodau am y broses o adolygu'r CCA.

- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd y byddai unrhyw gyfraniad i'r gymuned leol yn dibynnu ar raddfa unrhyw ddatblygiad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir er na ddaeth unrhyw fudd ariannol i enwebu Statws Safle Treftadaeth y Byd y byddai cyfleoedd o bosibl i wneud cais am arian grant ac unrhyw ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi cynnwys yr adroddiad ymgynghori.**
2. **mabwysiadu'n ffurfiol CCA Tirweddau Llechi Safleoedd Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru i'w ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.**
3. **dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir wneud unrhyw addasiadau ansylweddol, y gall fod eu hangen i'r CCA drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan.**

8. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**
**Cyflwynwyd** – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

9. **Adroddiadau Diweddaru**
**Cyflwynwyd** – Adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

10. **Penodi Sedd Wag Achlysurol ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol De Eryri**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Mynediad a Lles ac Ysgrifennydd y Fforymau Mynediad Lleol i gymeradwyo penodi un swydd wag achlysurol ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol y De.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Mynediad a Lles yr adroddiad a'r cefndir a chroesawodd yr aelodau newydd i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penodiad arfaethedig i'r swydd wag achlysurol Fforwm Mynediad Lleol y De.**

11. **Penderfyniadau Dirprwyedig**
**Cyflwynwyd a Derbyniwyd** – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad** .

12. **Apêl Cynllunio**
**Cyflwynwyd a Derbyniwyd** – copi o'r penderfyniad apêl a ganlyn :-
Apêl gan Mr. George Borthwick mewn perthynas â gwrthodiad i roi caniatâd cynllunio a gyflwynwyd gan yr Awdurdod "i storio un garafán deithiol sydd â chaniatâd cynllunio i'w defnyddio fel llety byw am wyth diwrnod ar hugain mewn unrhyw flwyddyn'", Tir gyferbyn â Man Claddu'r Crynwyr, Llwyngwril. (Gwrthodwyd yr apêl)

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.20**

## ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 29 MEHEFIN 2022

**Rhif yr Eitem.**

4. **Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**

(1) NP4/13/61B – Bwriad i godi is-orsaf drydan 11kv, Maes Parcio, Capel Curig.
**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir a rhoddodd grynodeb o'r cais i'r aelodau newydd. Dywedodd y Swyddog Achos fod y cais yn ymdrin â diwygiadau i'r cais gwreiddiol. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Achos nad oedd mynediad i'r adeilad yn broblem enfawr oherwydd fe ellir cael mynediad iddo heb ddefnyddio mannau parcio ac unwaith y byddai'r adeilad yn weithredol anaml y byddai angen ymweld â'r adeilad.
**PENDERFYNWYD rhoi** caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

(2) NP5/50/346E – Newidiadau allanol ac addasu ac ymestyn y balconi presennol, 9 Heol Teras, Aberdyfi. LL35 0LP.
**Adroddwyd** - Croesawodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir a'r Cadeirydd Ms. Sophie Berry i'r cyfarfod, a oedd ar hyn o bryd yn cynorthwyo'r Adain Cynllunio a Rheoli Tir oherwydd capasiti staff yr adran. Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Swyddog Achos y byddai colli cilfach y drws yn gwella mynediad i'r annedd ac na fyddai'n effeithio ar edrychiad yr adeilad. Cadarnhaodd y Swyddog Achos fod yr amod o osod blwch adar yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a oedd yn cefnogi gwella Bioamrywiaeth. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddogion er bod yr eiddo mewn Ardal Gadwraeth nad oedd unrhyw gyfyngiadau ac felly gallai'r ymgeisydd dynnu'r porth ar y drws o dan Hawliau Datblygu a Ganiateir.
**PENDERFYNWYD rhoi** caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

5. **Adroddiadau Diweddaru**

(1) Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeilad Rhestredig a gyflwynwyd o dan bwerau dirprwyedig a Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth – **Er Gwybodaeth**

Yn codi wedi hynny, dywedodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro wrth yr Aelodau nad oedd y rhestr mor gyfredol ag a ragwelwyd oherwydd adnoddau prin ond roedd yn gadarnhaol y byddai'r Aelodau'n cael diweddariadau mwy arwyddocaol maes o law.

<u>NP3/12/ENF191 – Castell Cidwm , Betws Garmon</u>
Roedd Aelod yn pryderu bod swm sylweddol o ddŵr yn mynd ar y ffordd a bod angen mynd i'r afael â'r mater.

<u>NP4/29/ENF10G – Tafarn y Machno, Penmachno.</u>
Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod rhestr o geisiadau cynllunio yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau, ond y gellid dosbarthu e-bost hefyd i'r aelodau ar geisiadau unigol sy'n berthnasol i'w ward pe bai angen. Dywedodd hefyd mai dim ond yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad y cyflwynwyd y rhestr Gorfodaeth.
Darparodd y Swyddog Achos y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r Aelodau a dywedodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro fod y mater yn dal i fynd rhagddo a dywedodd nad oedd unrhyw reswm hyd yma i gymryd camau pellach.

NP5/58/ENF616 – Tir ger Coed y Bachau , Dyffryn Ardudwy .
Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar y mater.

NP5/65/ENF115A – Tir yn Hengwrt, Llanelltyd.
Rhoddwyd diweddariad llafar i'r aelodau.

NP5/55/ENFL142A – 3 Glandŵr, Bryncrug.
Rhoddwyd diweddariad llafar i'r aelodau. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro y byddai Glandŵr a Neuadd Nannau yn cael eu rhoi ar restr flaenoriaeth Grŵp Rheoli Eiddo Gwag Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

(2) Cytundebau 106 – **Er gwybodaeth**

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

(3) Ceisiadau heb eu penderfynu lle mae mwy na 13 wythnos wedi mynd heibio – **Er Gwybodaeth**
NP5/74/496 – Gwastadgoed, Aberangell.
Rhoddwyd diweddariad llafar i'r aelodau.

NP5/57/34C – Marchnad Ffermwyr, Dolgellau.
Byddai'r Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn gofyn i'r swyddog achos roi diweddariad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 7 MEDI 2022**

Cynghorydd Elwyn Edwards (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Ms. Tracey Evans, Ms. Sarah Hattle, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms Delyth Lloyd.

**Swyddogion**
Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Mrs. Jane Jones, Mr. Dafydd Thomas, Mr. Richard Thomas, Mr. Aled Lloyd, Ms. Elen Hughes, Mrs. Anwen Gaffey.

Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol:-

- bod Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi a bod yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo i wirio'r cofnodion a byddant ar gael ar wefan yr Awdurdod yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau**
   Y Cynghorydd Kim Jones; Mr. Brian Angell, Mr. Tim Jones.

2. **Datganiad Budd**
   Fe wnaeth y Cynghorydd John Pughe Roberts ddatgan budd personol yn Eitem 4(1) ar y Rhaglen, o dan baragraffau 10(2)(a)(i) a 12(1) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau a gadawodd y cyfarfod tra roedd y mater yn cael ei drafod.

3. **Cofnodion**
   Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**
   **Cyflwynwyd** – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

   Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. **Ardaloedd Cadwraeth addas ar gyfer Prosiect yr Unfed Ganrif ar Hugain (Blwyddyn 1)**
   **Cyflwynwyd** – Adroddiad gan Swyddog Cynllunio yr Amgylchedd Hanesyddol er mwyn i'r Aelodau gymeradwyo'r dogfennau drafft, gydag unrhyw newidiadau angenrheidiol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

   Adroddwyd – Cyflwynodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd Hanesyddol yr adroddiad a'r cefndir.

   **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r dogfennau drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, fel y'u cyflwynwyd.**

6. **Adroddiadau Diweddaru**
**Cyflwynwyd** – Adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

7. **Penderfyniadau Dirprwyedig**
**Cyflwynwyd a Derbyniwyd** – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad** .

8. **Apeliadau Cynllunio**
**Cyflwynwyd a Chafwyd** – copïau o'r penderfyniadau apêl a ganlyn:-

1. Apêl gan Mr. Grant Scott yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio i godi annedd menter wledig dwy ystafell wely ar faes gwersylla presennol Maes Gwersylla Nyth Robin, Aberdyfi. LL35 0RG (Gwrthodwyd yr apêl)
2. Apêl gan Mr. R. Mathias yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio i ddymchwel y porth blaen presennol a'r groesfan ochr, codi estyniadau unllawr newydd i'r blaen a'r ochr yn Hen Gaerffynnon, Ffordd Isaf, Harlech. LL46 2RA (Gwrthodwyd yr apêl)

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.40**

## ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 7 MEDI 2022

**Rhif yr Eitem.**

4. **Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**

(1) NP 5/74/500 – Symud ac wynebu llwybr pren presennol gyda deunyddiau agregau newydd, tir yn Waun Camddwr, Dinas Mawddwy.
**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir.
**PENDERFYNWYD** rhoi **caniatâd** yn unol â'r argymhelliad.

6. **Adroddiadau Diweddaru**

(1) Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeilad Rhestredig a gyflwynwyd o dan bwerau dirprwyedig a Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth – **Er Gwybodaeth**

NP5/61/ENF329B – Hafod Wen, Harlech
Rhoddwyd diweddariad llafar i'r aelodau.

NP5/65/ENF115A – Tir yn Hengwrt, Llanelltyd
Rhoddwyd diweddariad llafar i'r aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

(2) Cytundebau Adran 106 – **Er Gwybodaeth**
**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

(3) Ceisiadau heb eu penderfynu lle mae mwy na 13 wythnos wedi mynd heibio – **Er Gwybodaeth**
NP5/71/488 – Bloc Coedwig Penaran, Llanuwchllyn
Bydd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn rhoi diweddariad manwl i'r Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 19 HYDREF 2022**

Cynghorydd Elwyn Edwards (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson.

**Swyddogion**
Mr G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Ms Jane Jones, Mr. Dafydd Thomas, Ms. Elliw Owen, Mr. Geraint Evans, Ms. Anwen Gaffey.

Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol:-

- nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo i wirio'r cofnodion a bydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Kim Jones; Ms. Delyth Lloyd.

2. **Datganiad Buddiant**
Ni ddatganwyd unrhyw Ddiddordeb Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 7 Medi 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Cynllun Datblygu Lleol Eryri – Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2021-2022**
**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio i drafod a chymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2021-2022.

**Adroddwyd** - cyflwynodd yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio'r Adroddiad Monitro a rhoi rhagor o fanylion i'r Aelodau am y prif ganfyddiadau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad Monitro a thrafodwyd y canlynol:-
- yr angen i gael cydbwysedd rhwng gwarchod yr amgylchedd a lles economaidd cymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol.
- 'Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040' a'i bwysigrwydd ar gyfer adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri yn y dyfodol.
- byddai datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd , ac er nad yw'n fater uniongyrchol i'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad.
- o dan yr adran o dan y pennawd “Ymchwil ac ystyriaethau pellach …” gofynnodd Aelod i swyddogion gryfhau ac adlewyrchu strategaethau'r Awdurdod ar Dwristiaeth Gynaliadwy, Rheoli Trafnidiaeth a mynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth sydd angen ei integreiddio yn y CDLl. Gallai adroddiadau Aquaterra a Small World Consulting ddarparu data defnyddiol i adeiladu arno a dylid datblygu’r

strategaethau bioamrywiaeth a hinsawdd ochr yn ochr â’r adolygiad o’r Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod Strategaeth Rheoli Ymwelwyr yr Awdurdod, y Strategaeth Trafnidiaeth a Pharcio, y Strategaeth Garbon a pholisïau Llywodraeth Cymru ar Adfer Natur ac ati, i gyd ar gamau paratoadol amrywiol, ac y byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad o’r Cynllun Datblygu Lleol.

- Gofynnwyd i swyddogion a oedd cyfleoedd yn y CDLl i wella safonau adeiladu mewn perthynas â materion hinsawdd, gyda'r Parc Cenedlaethol yn dod yn esiampl yn y maes hwn heb o reidrwydd effeithio ar gostau?
- teimlai aelod nad oedd y cysylltiad rhwng gwarchod a gwella rheolaeth yr amgylchedd naturiol a rôl amaethyddiaeth yn ddigon clir yn y ddogfen.
- yng ngoleuni sylwadau blaenorol am warchod yr amgylchedd, dywedodd Aelod fod y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol yr un mor bwysig.
- Trafododd yr Aelodau'r cynnydd arfaethedig o 10% mewn plannu coed mewn ymgais i gyrraedd y targed carbon net sero ac effeithiau posibl hyn ar y dirwedd.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd swyddogion fod y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol, y cyfeiriwyd ati ym mhara. 4.7, a'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar y gofrestr, yn cael eu harchwilio ymhellach a bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ffurfioli'r broses ar gyfer adeiladau traddodiadol.
- Trafododd yr Aelodau ymhellach para. 5.21 a'r berthynas rhwng incwm a phrisiau tai ac effaith hyn ar fforddiadwyedd tai yn y Parc Cenedlaethol. Yn codi wedi hynny, bu’r Aelodau hefyd yn trafod tai a arweinir gan y gymuned, a’r cydweithio parhaus â chymdeithasau tai ac awdurdodau tai lleol fel y cyfeirir ato ym mharagraffau. 5.58 a 5.59. Nododd yr Aelodau hefyd fod yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i greu ac ariannu swyddog i helpu i arwain datblygiadau yn y gymuned.
- Trafododd yr Aelodau'r defnydd o ddeunyddiau amgen, megis pren, i ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer y dyfodol. Byddai swyddogion yn cefnogi mentrau priodol pe bai ceisiadau'n cael eu cyflwyno.
- Nododd yr aelodau y byddai adroddiad ar y newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi, gosodiadau tymor byr a'r defnydd posibl o Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf o’r Gweithgor Aelodau ym mis Rhagfyr.
- teimlai Aelod y dylai'r CDLl, yn y dyfodol, ganiatáu'r un cyfleoedd datblygu i drigolion sy'n byw o fewn y Parc Cenedlaethol ag sydd ar gael i bobl sy'n byw y tu allan i'r ffin.
- Cefnogodd yr aelodau gyfleoedd i gefnogi economi wledig gynaliadwy trwy gryfhau cynhyrchiant bwyd / cadwyn fwyd leol.
- i gywiro gwall teipograffyddol ym mhara. 6.25 i ddarllen 'yn ystod misoedd haf *2022* '.
- cytunodd swyddogion i ystyried ymhellach bolisïau ar fynediad i safleoedd anghysbell a'r goblygiadau tirwedd o ganlyniad.
- cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i drafod pryderon yr Aelodau gyda'r Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth, mewn perthynas â chwmnïau sy'n prynu ffermydd ledled Cymru i blannu coed er mwyn gwrthbwyso eu hôl troed carbon. Nododd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r broblem.
- Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad a oedd wedi'i ysgrifennu'n dda ac yn hawdd ei ddeall.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi a chymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22.**
2. **cytuno i gynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 mabwysiedig o ganlyniad i dystiolaeth yr Adroddiad Monitro Blynyddol, newidiadau cyd-destunol cenedlaethol a lleol sylweddol, cyhoeddi Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) ynghyd â newidiadau eraill mewn polisi cenedlaethol.**
3. **cytuno ar y camau nesaf ar gyfer cynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 mabwysiedig, trwy baratoi Adroddiad Adolygu ac adrodd ar y canfyddiadau i Lywodraeth Cymru.**

5. **Adroddiadau Diweddaru**

**Cyflwynwyd** – Adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfiaeth.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd isod.

6. **Penderfyniadau Dirprwyedig**

**Cyflwynwyd a Derbyniwyd** – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad**.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.30**

**Rhif yr Eitem.**

5. **Adroddiadau Diweddaru**

(1) Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeiladau Rhestredig a gyflwynwyd o dan bwerau dirprwyedig a Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth – **Er Gwybodaeth**

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelod ynghylch yr amser y mae'r Awdurdod yn ei gymryd i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheolau cynllunio, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, er bod y broses orfodi ei hun yn gymhleth, roedd problemau recriwtio staff nid yn unig gan yr Awdurdod, ond hefyd ar draws Cymru gyfan. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr Aelodau unwaith y bydd ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cynllunio wedi'i gwblhau a'i staffio'n llawn, bydd perfformiad yn gwella.

<u>NP5/54/ENFLB33M – Neuadd Nannau, Llanfachreth</u>
Darparodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro ddiweddariad llafar i'r Aelodau ac adroddiad pellach bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Nododd yr aelodau fod Swyddog Amgylchedd Hanesyddol newydd wedi'i benodi'n ddiweddar.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

(2) Cytundebau Adran 106 – **Er Gwybodaeth**

Gofynnodd Aelod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir roi diweddariad i'r Aelodau newydd ar y polisi Symiau Gohiriedig. Yn codi wedi hynny, gofynnodd Aelod gan yr Awdurdod bolisi sy'n cefnogi trosi capeli/eglwysi segur fewn cymunedau i mewn i fflatiau? Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

(3) Ceisiadau heb eu penderfynu lle mae mwy na 13 wythnos wedi mynd heibio – **Er Gwybodaeth**

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 7 RHAGFYR 2022**

Y Cynghorydd Elwyn Edwards (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Annwen Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Sarah Hattle, Ms. Naomi Luhde-Thompson.

**Swyddogion**
Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Ms Jane Jones, Mr. Dafydd Thomas, Mr. Richard Thomas, Mrs. Anwen Gaffey.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad hefyd yn cael ei roi ar-lein.

1. **Ymddiheuriadau**
Cynghorydd Louise Hughes, Kim Jones, Ifor Glyn Lloyd, Meryl Roberts ; Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Ms. Delyth Lloyd.

2. **Datgan Budd**
Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**
**Cyflwynwyd** – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. **Adroddiadau Diweddaru**
**Cyflwynwyd** – Adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

6. **Penderfyniadau Dirprwyedig**
**Cyflwynwyd a Chafwyd** – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad**.

7. **Adroddiad ar Ddatblygiad Hillside, Aberdyfi**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar benderfyniad diweddar y Goruchaf Lys. Achubodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol am eu gwaith.

Adroddwyd - Diolchodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i'r staff unigol a fu'n gysylltiedig â'r achos. Diolchodd i Iwan Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Jane Jones, Rheolwr Cynllunio Dros Dro, Siwan Lyall, Cyfreithiwr yr Awdurdod, Liz Jenkins, Cydlynydd GIS a Rebecca Jones, cyn Bennaeth Polisi'r Awdurdod. Mynegodd werthfawrogiad yr Awdurdod i Geldards Solicitors, Caerdydd, a'r Bargyfreithiwr, Gwion Lewis.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr adroddiad a rhoddodd gefndir manwl er budd yr Aelodau a benodwyd ar yr Awdurdod yn ddiweddar. Dywedodd nad oedd unrhyw ganiatâd dilys ar ôl ar y safle a chadarnhaodd fod ffin datblygu Aberdyfi yn dod i fyny at y tai a ddatblygwyd eisoes ar y safle. Bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar ystyriaethau cynllunio yn y dyfodol a chafodd ei grybwyll mewn llawer o'r cylchgronau cynllunio cenedlaethol.

Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod yr hawlydd wedi gwneud cynnig rhesymol ar gyfer costau Goruchaf Lys yr Awdurdod a bod hynny wedi'i dderbyn. Bydd hawliadau pellach am gostau ar gyfer yr Uchel Lys a'r Llys Apêl yn dilyn.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y gallai ddarparu gwybodaeth am geisiadau byw eraill, pe bai angen.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.55**

ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 7 Rhagfyr 2022

**Rhif yr Eitem.**

4. **Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**

(1) NP 5/73/LBAD425C – Caniatâd Hysbyseb i arddangos panel dehongli ym maes parcio, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog. LL41 3YU
**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yr adroddiad a'r ystyriaethau cynllunio. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro mai pren fyddai deunydd y ffrâm.
**PENDERFYNWYD** rhoi **caniatâd** yn unol â'r argymhelliad.

5. **Adroddiadau Diweddaru**

(1) Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeilad Rhestredig a gyflwynwyd o dan bwerau dirprwyedig a Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth – **Er Gwybodaeth**

Mewn ymateb i bryder cyffredinol a godwyd gan Aelod a chais i swyddogion fod yn fwy penodol a chynnwys amserlenni yn y golofn 'sylwadau' fel bod Aelodau'n gwybod eu bod yn symud ymlaen, dywedodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro ei bod yn anodd darparu manylion manwl gywir o ran amserlenni gan fod natur y broses gydymffurfio yn gymhleth a'r gostyngiad yn y lefelau staffio yn yr adran gydymffurfio hefyd yn ffactor.

NP5/77/ENFLB60H – Gwesty Maes y Neuadd, Talsarnau
Bydd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorydd Annwen Hughes a manylion y defnydd arfaethedig yn y dyfodol.

NP2/16/ENF448 - Chwarel Hendre Ddu, Cwm Pennant
Bydd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn ceisio cadarnhad gan y Swyddog Achos fod y gwaith ar y safle bellach wedi dod i ben ac y bydd Hysbysiad Atal yn cael ei gyflwyno os bydd unrhyw waith yn ailddechrau ar y safle.

NP5/55/ENFL142A - 3 Glandŵr, Bryncrug
Nododd yr aelodau fod y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn dal i geisio dod o hyd i'r perchennog i symud y mater hwn ymhellach. Cynigiodd Aelod roi rhagor o fanylion i'r swyddog achos.

Yn codi wedi hynny, awgrymodd Aelod y dylid sefydlu bwrdd prosiect i gynorthwyo staff gyda hen achosion gorfodi. Mynegodd yr Aelod bryderon hefyd y gallai staff yn y Gwasanaeth Cynllunio fod dan lawer o straen oherwydd lefelau staffio is. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir nad oedd yr Awdurdod yn wahanol i Awdurdodau Cynllunio eraill a bod y broses orfodi ei hun yn gymhleth. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr Aelodau unwaith y byddai'r rhewi recriwtio wedi dod i ben, y gobaith oedd y byddai'r Awdurdod yn gallu penodi, er bod yna broblemau recriwtio staff cydymffurfio ledled Cymru.

Mewn ymateb i bryder bod staff yn gorfod ymdrin gydag ymgeiswyr anfodlon, sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr aelodau nad oedd hyn yn bryder sylweddol ar hyn o bryd.

NP5/54/ENFLB33M – Neuadd Nannau, Llanfachreth
Ymddiheurodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro i'r Aelodau nad oedd yr adroddiad yn cynnwys y diweddariad fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd cyfarfod gyda'r arbenigwyr toi, a gynhaliwyd yr wythnos hon, wedi darparu gwahanol opsiynau ar gyfer amddiffyn y to. Roedd swyddogion yn awr yn edrych ar opsiynau ariannu amrywiol ac yn ystyried cofrestru datganiad o ddiddordeb ar gyfer grant newydd a ariennir gan Cadw a allai fod ar gael.

Mewn ymateb i gwestiwn, cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir bod adeiladau eraill “mewn perygl” yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd lle gallai'r awdurdod gamu i mewn a bydd y Swyddog Amgylchedd Hanesyddol sydd newydd ei benodi yn cyflwyno adroddiad i Aelodau flaenoriaethu opsiynau yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

(2) Cytundebau Adran 106 – **Er Gwybodaeth**
**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

- Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y byddai'r pwynt gweithredu ar Drefniadau Tendro yn parhau fel yr oedd, gan fod pethau'n datblygu drwy'r amser ond y byddai'n cael ei ddiweddaru lle bo modd. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Archwilio Mewnol am ei hadroddiad a'i phroffesiynoldeb wrth arwain y gwaith archwilio, gan fod ei gyfnod fel Prif Swyddog Cyllid Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i fod i ddod i ben ym mis Mehefin 2023, felly ni fydd yn cael cyfle arall i ddangos gwerthfawrogiad am ei gwaith mewn cyfarfod o Awdurdod y Parc.

**PENDERFYNWYD**
1. **derbyn yr adroddiad fel "Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol" yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus am y flwyddyn ariannol 202 1/22.**
2. **derbyn y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifyddu 202 2/23, yn ddarostyngedig i gael ei newid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid.**

8. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn cymharu, ar lefel maes gwasanaeth, y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf a gyllidebwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 202 1/2022 a'r gwariant alldro gwirioneddol am y flwyddyn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad yn manylu ar y symudiadau a'r trosglwyddiadau o gyllidebau refeniw a chyfalaf, i'w cymeradwyo'n ffurfiol.
Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd y bwriad i wario unrhyw warged ar Asedau'r Awdurdod wedi digwydd a chynghorodd yr Aelodau newydd ar y cylchoedd adrodd arferol ar gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Trafododd yr Aelodau'r incwm ychwanegol o Feysydd Parcio'r Awdurdod. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod 80% o'r arian wrth gefn eisoes wedi'i ddyrannu. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod arian wedi'i ddyrannu'n flaenorol i wella'r llwybrau troed ym Mhen y Pass ond dywedodd mai sefyllfa unwaith ac am byth oedd yr incwm ychwanegol o barcio yn hytrach nag un parhaol ac y byddai swm sylweddol o'r arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i wella diogelwch ym Mhen y Pass.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd unrhyw swm na chanran penodol wedi'u hargymell ar gyfer cronfeydd wrth gefn ar gyfer blwyddyn arferol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi mynegi y byddai'r Awdurdod yn derbyn y prif grant heb chwyddiant a bod swyddogion yn trafod y mater gyda nhw i sefydlu pam fod yr Awdurdod yn y sefyllfa hon. Cadarnhaodd hefyd ei bod yn debygol y byddai'r Awdurdod, fel y rhan fwyaf o sefydliadau, angen y cronfeydd wrth gefn ychwanegol yn 2022/23, oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd, ac ati, a dywedodd y gallai effaith hyn fod yn sylweddol.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Awdurdod yn parhau i godi'r materion ynghylch mynediad i'r maes parcio ym Mhen y Pass gyda Stad Baron Hill a'i fod yn gobeithio y byddai'n cael ei ddatrys maes o law, ond os na fyddai, yna byddai angen ystyried datrysiad amgen.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, er bod meysydd parcio wedi bod yn dawelach ar y cyfan eleni, roedd y Pennaeth Eiddo yn awyddus i gyrraedd y targedau incwm, ond ar y sail y bydd llai o ddefnyddwyr.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi cynnwys yr adroddiad alldro a chymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a amlinellwyd yn rhan 4 (fel y manylir yn Atodiad 1).**
2. **cymeradwyo'r trosglwyddiadau i ac o'r cronfeydd a glustnodwyd fel yr amlinellir yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
3. **nodi sefyllfa derfynol cyfadrannau a gwasanaethau o ran rheolaeth gyllidebol (paragraffau 4.3 i 4.7 ac Atodiad 2).**
4. **cymeradwyo dyraniad llithriad ac ymrwymiadau (£274,833) yn Atodiad 4.**
5. **cymeradwyo trosglwyddo'r incwm maes parcio ychwanegol o £480,000 i'r Gronfa Rheoli Asedau.**
6. **nodi bod y gwarged ar gyfer blwyddyn ariannol 202 1/22 yn cynyddu Balansau Cyffredinol yr Awdurdod (paragraff 6.3).**
7. **cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).**

9. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r gofrestr risg yn fanwl.
Trafododd yr Aelodau y canlynol:-

- roedd Aelod yn hapus i nodi bod y risg o ymosodiad seiber bellach wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Risg gan ei fod yn ymwybodol o'r difrod y gall ei achosi. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod yn ymwybodol o'r Risgiau a achosir gan Seiber Ymosodiad posibl a dywedodd ei fod wedi'i uwchraddio fel bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r camau a gymerwyd gan yr Awdurdod.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y risg wedi cynyddu'n bennaf oherwydd Covid gan fod y rhan fwyaf o waith yr Awdurdod bellach yn cael ei gwblhau ar-lein a dywedodd nad oedd y rhyfel rhwng Rwsia a'r Wcráin wedi helpu'r proffil risg hwn gan ei fod wedi cynyddu'r siawns o ymosodiadau seiber ar Gyrff Cyhoeddus.
- Trafododd yr aelodau'r ymosodiad seibr diweddar ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gofyn a oedd gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi trafod y mater gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a bod yr Awdurdod wedi cymryd camau ychwanegol ers hynny ond dywedodd fod cyfyngiad ar yr hyn y gellid ei wneud a dywedodd ei fod yn bwysig bod pawb wedi chwarae eu rhan gan gynnwys Swyddogion ac Aelodau i osgoi unrhyw risgiau posibl.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo Proffil Risg yr Awdurdod fel y'i cyflwynwyd.**

10 **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021/22**
**Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant**

Cyflwynwyd – Y pedwerydd a chwarter olaf o'r adroddiadau cynnydd ar gyfer 2021/22 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ar ddiweddariadau'r pedwerydd a'r chwarter olaf a dywedodd y byddai'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad yn cael ei defnyddio i baratoi'r adroddiad blynyddol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Medi.

Trafododd yr aelodau a'r swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- <u>Gwella Rheolaeth a Dealltwriaeth o Dreftadaeth Ddiwylliannol</u> - gofynnodd Aelod am y cynnydd ynghylch 'taith gerdded y mis'. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd yn siŵr am y cynnydd hyd yma
- <u>Mynd i'r afael â Heriau a Chyfleoedd Senarios Rheoli Tir ar ôl Brexit</u> – gofynnodd Aelod sut oedd pethau'n dod yn eu blaenau yn dilyn datganiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yr wythnos flaenorol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir mai ychydig o gynnydd a wnaed hyd yn hyn ond bod y Prif Weithredwr yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth Cymru a dywedodd fod cyfarfod i'w gynnal yn Sioe Frenhinol Cymru ac y byddai unrhyw ddatblygiadau yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau maes o law.
- <u>Mynd i'r Afael â'r Dirywiad mewn Natur</u> - gofynnodd Aelod a ellid gwneud unrhyw waith yn y cyfamser ar CCA ar fioamrywiaeth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol yn cael eu diwygio ar hyn o bryd a'i fod yn cysylltu'n rheolaidd â Swyddogion

Llywodraeth Cymru a dywedodd fod y canllawiau newydd i'w cyhoeddi'n fuan iawn ac unwaith y byddent ar gael y byddai modd symud pethau ymlaen.

- Cefnogi Pobl Ifanc – mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r gwaith yn cael blaenoriaeth gan y Swyddog Ieuenctid newydd ei benodi.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

11. **Adroddiad Monitro Cwynion**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

12. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 9 Chwefror a 18 Mai 2022, er gwybodaeth.

Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion.
Yn codi wedi hynny,

Cofnodion 18 Mai 2022
Eitem Rhif 5 – Adroddiad Arolwg Cyflwr

- Croesawodd yr aelodau'r penderfyniad ar ddatblygu partneriaeth gyda sefydliad arall yn y tymor hir. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y syrfëwr wedi darparu'r ffigwr o £30,000 i £40,000 fel y swm oedd angen ei wario ar yr adeilad yn flynyddol i gynnal a chadw'r adeilad. Dywedodd fod angen blaenoriaethu peth gwaith oherwydd pryderon Iechyd a Diogelwch a dywedodd y byddai unrhyw benderfyniadau ar wariant sylweddol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau.
- roedd Aelod yn bryderus ynghylch y broblem o ddŵr yn mynd i mewn i'r adeilad a rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol eglurhad pellach ar y mater. Dywedodd fod adroddiad cynhwysfawr wedi'i ddosbarthu i aelodau'r bwrdd ar gyflwr yr adeilad. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i anfon copi o'r adroddiad at yr aelod.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y busnes o ddydd i ddydd yn newid yn gyson ac nad oedd yr Awdurdod wedi edrych yn fanwl ar yr opsiwn o osod paneli solar gan fod rhai o'r tiroedd o fewn y Plas yn sensitif iawn.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

Diolchodd y Cadeirydd ar ran yr Aelodau i Mr. Owain Wyn a oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Awdurdod. Diolchodd Mr. Owain Wyn i Staff ac Aelodau'r Awdurdod a dymunodd yn dda iddynt.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 yb**

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
**DYDD MERCHER 30 TACHWEDD 2022**

Cynghorydd Elfed Powell Roberts (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL***:

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorydd Jo Nuttall;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
Mr. Emyr Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms. B. Hughes, Mr. David Williams, Ms. Nia Murray, Mrs. Awel Gruffydd, Mr. Rhys Owen, Mrs. A. Gaffey;

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Louise Hughes, Ifor Glyn Lloyd.

Datganodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo gyda gwirio'r cofnodion.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Croesawodd y Cadeirydd staff ac aelodau i gyfarfod Hybrid cyntaf yr Awdurdod.

2. **Datgan Budd**
Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
Cafodd cofnodion y cyfarfod Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 eu derbyn ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Log Gweithredu**
Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i’w gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu, er gwybodaeth.**

5. **Adroddiad Diweddaru ar Gyllid Grant Allanol**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad ar brosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod ac i gadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir a rhoddodd fanylion pellach er budd yr Aelodau a benodwyd ar yr Awdurdod yn ddiweddar. Dywedodd nad yw pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn elwa o allu cyflawni prosiectau drwy ddefnyddio cyllid grant allanol ac awgrymodd y dylai'r Aelodau gadw copi o'r adroddiad at ddibenion cyfeirio ato, oherwydd fe ofynnir iddynt gwblhau holiadur fel rhan o arolwg gan Archwilio Cymru yn ystod y mis neu ddau

nesaf. Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu â'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol os oedd angen eglurhad pellach arnynt ar unrhyw fater.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- mewn ymateb i gwestiwn ar broffil gwariant a blynyddoedd proffil Prosiect LIFE Coedwig Glaw Celtaidd Cymru, sicrhaodd y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth yr Aelodau fod y prosiect yn cynnwys elfen gost uchel dros y tair blynedd gyntaf a'i fod wedi'i reoleiddio'n gadarn iawn gan y Monitrydd Ewropeaidd, a oedd yn fodlon i'r Awdurdod wneud cais am estyniad 2 flynedd yn yr wythnos nesaf i 10 diwrnod.
- mewn ymateb i gais gan Aelod, cytunodd y Prif Weithredwr i ddiwygio Atodiad 2 i ddarparu gosodiad mwy strategol yn y dyfodol.
- Bu'r Aelodau a'r swyddogion yn trafod cymhlethdodau sicrhau cytundebau rheoli ymhellach gyda nifer o dirfeddianwyr preifat. Cadarnhaodd swyddogion fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru eu cyllid eu hunain a all hefyd ychwanegu gwerth at waith yr Awdurdod.
- Atodiad 2 - eitem 14 Datgarboneiddio - awgrymodd Aelod y gellid adolygu hyn ar ôl i'r Grŵp Strategaeth Garbon adrodd ac awgrymu y gellid ariannu lleihau a hyrwyddo carbon drwy'r mecanwaith hwn yn y dyfodol. Hefyd, gallai casglu data ar effaith newid hinsawdd o fewn y Parc Cenedlaethol ei hun gael ei gyflwyno mewn ffordd fwy ystyrlon, a gallai gynorthwyo ystyriaethau strategol ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r prosiectau a ariannwyd gan gyfalaf 2022 – 2025.**
2. **nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).**
3. **cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2).**
4. **nodi'r Siart Llif Cymeradwyo Aelodau (Atodiad 3).**

6. **Craffu Strategol ar gyfer 2023-24**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Aelodau nodi'r adroddiad ac i ystyried meysydd craffu pellach ar gyfer 2023-24 yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir. Dywedodd fod rhaglen graffu ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael ei chytuno'n flynyddol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bob mis Tachwedd. Eleni, mae'r Tîm Rheoli, ar ôl ystyried y pwysau presennol ar staff, yn argymell na ddylai'r Awdurdod ymrwymo i raglen bellach o graffu strategol ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad a'r rôl graffu barhaus sy'n parhau mewn perthynas â Charbon ac Enwau Lleoedd.**
2. **ystyried meysydd craffu pellach yn y flwyddyn ariannol nesaf.**

7. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2022-23**

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer chwarter cyntaf ac ail chwarter (Ebrill – Medi) y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol a gofynnodd i'r Aelodau nodi bod yr Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â'r targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru.

Trafododd yr Aelodau a’r Swyddogion yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- **Amgylcheddau Cydnerth**
  Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn Natur
  Cadarnhaodd y swyddogion eu bod yn dal i aros am gadarnhad ynghylch cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru dros y 3 blynedd nesaf i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer adfer natur yn Eryri. Cadarnhaodd y Pennaeth Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth fod gwaith cyfalaf yn parhau, er ei fod yn dibynnu ar gyllid yn y dyfodol a materion capasiti yn yr adran. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Swyddog Strategol Adfer Natur ac Atafaelu Carbon newydd ei phenodi hefyd yn cyfrannu at y gwaith hwn.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr, yn dilyn cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar y plymio dwfn arfaethedig i'r dirywiad mewn natur, fod y teulu o Dirweddau Gwarchodedig wedi ysgrifennu at Leslie Griffiths AS. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai’n ystyried defnyddio swyddogion fel hwyluswyr yn y cynllun newydd i gydgysylltu camau gweithredu ar draws nifer o ddeiliaid cytundebau i gefnogi tirweddau gwarchodedig.
- **Ffyrdd Cydnerth o Weithio**
  Moderneiddio Trefniadau Llywodraethu
  Mewn ymateb i gwestiwn ar ddatblygu Aelodau, dywedodd y Prif Weithredwr fod penodiadau wedi'u gwneud i'r tair swydd Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, y bydd un ohonynt yn mynd i'r afael â Chynhwysiant, Amrywiaeth a Rhagoriaeth Llywodraethu sy'n cynnwys datblygu Aelodau ac sy'n cael ei chynnal gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Bydd rhaglen hyfforddi a datblygu yn cael ei sefydlu, a phapur trafod yn cael ei gyflwyno i Weithgor yr Aelodau yn gynnar yn 2023. Dywedodd hefyd fod sesiynau sefydlu aelodau newydd wedi’u cynnal, a bod Cwrs Sefydlu Aelodau Newydd y DU wedi’i gynnal yn Northumberland ym mis Tachwedd, er nad oedd aelodau newydd o Eryri wedi gallu bod yn bresennol y tro hwn. Roedd Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn cael ei threfnu a'i chynnal gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mis Mai 2023 ac mae'r Awdurdod hefyd wedi penodi Sarah Hattle i gynorthwyo gyda Mentora Aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

8. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**
Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a’r Pennaeth Adnoddau Dynol i gyflwyno’r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 20 21/22. Mewn ymateb i gwestiwn, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod yr Awdurdod yn parhau i weithio yn unol â'i Ddatganiad Llesiant 2021-2026.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 20 20 21/22 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

9. **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6**
**Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2022**
Cyflwynwyd – Adroddiad drafft gan Dafydd Roberts, Uwch Ecolegydd.
Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth yr adroddiad ar ran yr Uwch Ecolegydd nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Uwch Ecolegydd am ei adroddiad rhagorol a oedd yn gryno ac yn glir.
- mewn ymateb i gwestiwn ar y gwaith llwybrau troed ar SoDdGA Cors Geuallt, cadarnhaodd y Pennaeth Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth fod swyddogion yn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar bob achlysur a bod yr Awdurdod wedi dysgu addasu ei arferion a'i weithdrefnau dros amser. Roedd swyddogion yn ymwybodol o'u dyletswydd i hyfforddi'r timau llwybrau troed a'r angen i dynhau'r gofynion ar gyfer contractwyr allanol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Pennaeth y Gwasanaeth Wardeiniaid yn paratoi adroddiad a fydd yn amlinellu egwyddorion ar gyfer uwchraddio llwybrau troed yn y dyfodol ac yn cynnwys rhesymau pam ac ar gyfer pwy yr oedd yr Awdurdod yn gwneud y gwaith. Cadarnhaodd hefyd nad oedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y llwybr ceffyl gan fod yr Awdurdod yn gwneud gwaith llwybrau troed o dan bwerau awdurdod priffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion dor-rheolaeth cynllunio sy'n cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth ac a oedd hyn yn rhywbeth y dylai'r Aelodau ganolbwyntio arno. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod cefnogaeth gadarnhaol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cyhoeddi cyfarwyddeb i'r awdurdodau cynllunio i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth ar gyfer pob datblygiad. Yn anffodus, oherwydd nad oes unrhyw arweiniad o gwbl, mae hyn wedi creu mwy o gymhlethdodau wrth i awdurdodau unigol ymdrin â'r gyfarwyddeb mewn ffordd wahanol. Mae'r Awdurdod yn parhau i aros am yr arweiniad ac yn y cyfamser, mae swyddogion yn tynnu sylw'r datblygwyr at yr angen i ymgorffori mesurau gwella bioamrywiaeth yn eu cynigion fel amod cynllunio. Nododd Aelod bryderon, pe na bai amodau cynllunio'n cael eu dilyn i fyny, nad oedd unrhyw sancsiynau, ac mae hynny'n tanseilio'r broses gyfan. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, er bod gan yr Awdurdod y pwerau, roedd y gostyngiad mewn lefelau staffio yn y gwasanaeth cydymffurfio yn golygu nad oedd y gwaith monitro angenrheidiol yn cael ei wneud.
- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y dystiolaeth oedd ar gael trwy ERAMMP a Cofnod ac a oeddent yn ddigonol at ddibenion yr Awdurdod. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn nad oedd ERAMMP yn cyflawni fel y dylai, am ei fod yn ceisio edrych ymlaen, a bod system Cofnod yn dda ond yn dibynnu ar ansawdd y casglu data. Dywedodd y Pennaeth Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth fod ERAMMP newydd gael ei ail gontract a'r gobaith oedd y byddai'n gallu dangos y cynnydd a'r dirywiad a darparu llinell sylfaen well wrth symud ymlaen. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod gan ddelweddau lloeren newydd Cymru Fyw'r potensial i fod yn ffordd fwy cadarn o edrych ar dor-rheolaeth a newidiadau cynnil mewn defnydd tir dros amser. Nododd yr Aelodau fod yr Awdurdod yn elwa o gael swyddogion gyda'r sgiliau angenrheidiol i ddehongli'r data, nad ydynt efallai ar gael i dirweddau dynodedig eraill ar hyn o bryd.
- dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y defnydd o dechnoleg yn newid yn gyflym dros y 5 mlynedd nesaf gyda systemau meddalwedd fel google analytics yn gallu darparu gwybodaeth amser real ar unrhyw dirwedd, a fydd yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn rheoli ac yn ychwanegu gwerth ar gyfer y dyfodol.

- Trafododd yr aelodau ymhellach y posibilrwydd o gasglu data gylfinirod gan y gymuned, a rheolaeth rhododendron ar dir sy'n ddarostyngedig i gytundebau organig.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.**

10. **Adroddiad Monitro Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2021/22**
Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i gynghori'r Aelodau ar faterion Iechyd a Diogelwch o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r cefndir.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- roedd Aelod yn pryderu nad oedd data cymhariaeth wedi'i gynnwys ac y dylai'r adroddiad ddarparu mwy o wybodaeth fonitro. Eglurodd y Pennaeth Adnoddau Dynol nad oedd y data'n ddigonol i'w gynnwys yn yr adroddiad a chytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y data a oedd ar gael wedi bod yn anodd ei ddehongli. Dywedodd fod y wybodaeth yn cael ei diweddaru ac y byddai ar gael yn electronig yn y dyfodol.
- Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr adolygiad sydd ar ddod o arferion gwaith a mabwysiadu dull ystwyth o weithio yn y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiwn, teimlai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol tra bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo y byddai'n anodd asesu effaith gweithio gartref ar les staff ond sicrhaodd yr Aelodau y byddai monitro'n cael ei adfer yn ddi-oed. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr holl staff yn cael eu hannog i ddilyn cyfarwyddiadau ar sut i osod eu hoffer a mynd i'r afael â'u hanghenion gweithio gartref. Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau Dynol y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**
2. **disgwyl am adroddiad diweddaru ar arferion gwaith i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.**

11. **Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy i roi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd y Canolfannau yn erbyn targedau ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy yr adroddiad yn fanwl a rhoddodd drosolwg o'r flwyddyn 2022/23 hyd yma a ffigurau cymhariaeth o 2019/20.

Trafododd yr Aelodau y materion a ganlyn:-

- Roedd yr aelodau'n cydymdeimlo â'r problemau staffio a brofwyd gan y gwasanaeth.
- roedd angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y Gwasanaeth Sherpa yn gweithredu i Feddgelert.
- cadarnhaodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy bod staff y Canolfannau Croeso yn cael eu cadw yn ystod misoedd y gaeaf, er bod Canolfan Groeso  Aberdyfi, sy'n gyrchfan mwy tymhorol, wedi colli staff oherwydd ei bod ar gau o ddiwedd mis Hydref hyd ddiwedd mis Mawrth.
- Trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd o ddefnyddio'r Canolfannau Croeso fel mannau cynnes y gaeaf hwn. Cytunodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy i ymchwilio i'r posibilrwydd hwn.
- nododd Aelod bryderon y gallai problemau recriwtio a chadw staff fod yn risg gorfforaethol i'r Awdurdod ac er mwyn darparu ffocws corfforaethol, roedd angen i'r Aelodau gael cipolwg ar y rheswm dros hyn. Yn codi wedi hynny, gofynnwyd i swyddogion ystyried trefnu ymgyrch recriwtio. Dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn eisoes wedi'i godi gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a oedd ar hyn o bryd yn gweithio ar hyrwyddo'r Awdurdod fel cyflogwr o ddewis. Roedd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir hefyd yn edrych ar weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru i ddenu Swyddogion

Cynllunio Cymraeg eu hiaith. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod yr Awdurdod yn ddiweddar wedi codi cyflogau staff o ddau bwynt cynyddrannol ar draws y gweithlu er mwyn cystadlu â chyflogau a dalwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru a chredai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y gallai darpar ymgeiswyr gael eu denu gan ymagwedd ystwyth yr Awdurdod at arferion gwaith, sy'n darparu hyblygrwydd a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

- argymhellodd Aelod opsiynau amrywiol ar gyfer denu staff i weithio yn y canolfannau croeso megis creu mwy o rolau rhan amser i annog gweithwyr hŷn neu gynnig talu costau teithio ayb.
- Trafododd yr aelodau opsiynau ar gyfer creu ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r Canolfannau Croeso a denu mwy o bobl i'r Canolfannau.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy ei bod yn mynychu ffair fasnach flynyddol yn Harrogate, yn gweithio gyda chyflenwyr lleol, yn amrywio'r stoc, ac yn defnyddio amrywiol ddulliau megis gwerthu nwyddau ar gomisiwn i grefftwyr lleol ac ati, er mwyn gwella maint yr elw.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r camau gweithredu ar gyfer 202 3/24, fel yr amlinellwyd.**

12. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022, er gwybodaeth. Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion, a rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol grynodeb o'r sefyllfa bresennol.

Trafododd yr Aelodau a’r swyddogion y canlynol:-

- er gwybodaeth, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod 'S4C - Priodas Pum Mil' wedi ffilmio ym Mhlas Tan y Bwlch yn ddiweddar ac y byddai'r rhaglen yn cael ei darlledu dros gyfnod y Nadolig.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gan fod Plas Tan y Bwlch yn adeilad rhestredig Gradd II*, bod angen cynnal cyflwr yr adeilad yn y tymor byr. Cynghorodd ymhellach, unwaith y bydd y Cynllun Busnes wedi'i gytuno, y bydd penderfyniadau hirdymor ar gyllid grant a photensial partneriaeth yn y dyfodol i gyd yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod i'w hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad ffurfiol ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.

- dywedodd y Prif Weithredwr ymhellach pe na bai setliad Llywodraeth Cymru yn ffafriol, y gallai amgylchiadau newid yn gyflym iawn, ac y gellid gofyn i'r Aelodau ystyried dyfodol Plas Tan y Bwlch ar ddyddiad cynharach.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion, er gwybodaeth.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.50**

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
**DYDD MERCHER 22ain MAWRTH 2023**

Cynghorydd Elfed Powell Roberts (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL***:

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms. B. Hughes, Mr. D. Williams, Ms. H. Pye, Mrs. A. Gaffey;

**Yn bresennol**
Mrs. Sharon Warnes, Vice Chair Standards Committee.

**Ymddiheuriadau**
Cynghorydd Louise Hughes; Mr. Brian Angell, Ms. Naomi Luhde-Thompson.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i helpu i wirio'r cofnodion ac y byddent ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau y Cadeirydd**
Croesawodd y Cadeirydd Mrs. Sharon Warnes, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i'r cyfarfod i arsylwi.

2. **Datganiad o Ddiddordeb**
Ni ddatganwyd unrhyw Ddiddordeb Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Log Gweithredu**
Cyflwynwyd – Log gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth a gweithredu.

Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 24.11.21

- Eitem Gweithredu 9 – Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg 2016-21: Asesu'r Canlyniad

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael ei hystyried heddiw (Eitem Rhif 7), ac os caiff ei chymeradwyo, gellid dileu'r cam gweithredu o'r Log Gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu a dileu'r cam gweithredu fel yr amlinellwyd.**

5. **2022/23 Diweddariad ar y Gyllideb**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i hysbysu'r aelodau o drosglwyddiadau sylweddol o fewn cyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad, a oedd yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer unarddeg mis cyntaf 2022/23 ac yn rhoi rhagamcan o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn codi wedi hynny, manteisiodd y Prif Swyddog Cyllid ar y cyfle i ddiolch i David Williams am ei waith ac am ei barodrwydd i gamu i mewn i gynorthwyo'r Awdurdod yn ystod absenoldeb mamolaeth y Pennaeth Cyllid. Nododd y Prif Swyddog Cyllid, er y gallai'r ffigurau newid erbyn diwedd y flwyddyn, ei fod yn fodlon gyda'r rhagamcan terfynol ar gyfer 2022/23.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod gan Yr Ysgwrn Gynllun Busnes 3 blynedd ar hyn o bryd. Nododd er bod y dull adrodd presennol yn aneglur, byddai'r llinell sylfaen yn cael ei haddasu i gofnodi'r sefyllfa wirioneddol. Dywedodd fod gan Yr Ysgwrn hefyd gronfeydd wrth gefn a oedd wedi cronni yn dilyn llwyddiant yr ychydig flynyddoedd cyntaf o weithredu a bod gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol gynlluniau ar gyfer y dyfodol, a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau fel rhan o Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn ym mis Mehefin.
- yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr erthygl yn y wasg wedi bod yn gamarweiniol a bod ffigurau incwm diweddar wedi codi'n sylweddol. Hefyd, roedd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol wedi rhoi cyfweliad ardderchog i'r BBC i egluro unrhyw gamsyniadau ynghylch Yr Ysgwrn.
- gofynnodd y Pennaeth Ymgysylltu i'r Aelodau gyfeirio unrhyw geisiadau gan y cyfryngau at y Tîm Cyfathrebu a oedd, y tro hwn, wedi gallu cywiro'r camddealltwriaeth a'r camddehongliad o Broffil Risg yr Awdurdod.
- nododd yr Aelodau bryderon nad oedd Plas Tan y Bwlch yn gallu denu mwy o fusnes o'i gymharu â sefydliadau tebyg yn yr ardal. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch yn cyfarfod ar gynnydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i drafod opsiynau ar gyfer y dyfodol.
- dywedodd y Prif Weithredwr, er y byddai'r setliad grant gan Lywodraeth Cymru yn aros yn sefydlog dros y tair blynedd nesaf, y gallai gadarnhau, yn ychwanegol at y £200k y cyfeiriwyd ato ym mhara. 1.7 o'r adroddiad, roedd yr Awdurdod newydd dderbyn £300k pellach, heb amodau, a fydd ar gael i fynd i'r afael â heriau ariannol yn 2023/24.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

6. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i ddiweddaru'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r proffil risg ac amlinellodd y prif newidiadau i'r gofrestr.

Yn codi wedi hynny,
Cyfeirnod Risg 2 Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch), a
Cyfeirnod Risg 17 Sicrhau dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch
Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Plas Tan y Bwlch wedi'i rannu'n ddau risg o fewn y gofrestr (cyfeirnod risg 2 a chyfeirnod risg 17). Hefyd, cytunodd y Prif Weithredwr i edrych ar ymestyn Strategaeth Adfer ar ôl Trychineb yr Awdurdod i gynnwys bygythiadau o ddigwyddiadau megis clwy'r traed a'r genau, pandemig ffliw ac ati.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad a'r Gofrestr Risg.**
2. **cymeradwyo dileu Cyfeirnod Risg 13: Effaith y Coronafeirws (Covid-19) ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod o'r Gofrestr Risg.**

7. **Strategaeth Hybu'r Gymraeg**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gymeradwyo fersiwn terfynol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer 2022-27.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a'r strategaeth a diolchodd i'r Grŵp Llywio am eu gwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i ddiwygio'r defnydd o 'normaleiddio' fel cyfieithiad i'r gair Cymraeg 'sefydlu' ar dudalen 19 o'r Strategaeth.

**PENDERFYNWYD**
1. **i nodi'r adroddiad.**
2. **yn ddarostyngedig i nodi'r newid uchod, cymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg fel y'i cyflwynwyd, ac awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gyhoeddi'r Strategaeth ar wefan yr Awdurdod.**

8. **Rhyddid Gwybodaeth**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad, er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

9. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2022: Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Ymgysylltu, ynghyd ag adroddiad blynyddol ar ddangosyddion perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a chynnydd ar y cynllun gweithredu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu yr adroddiad, y cefndir ac Adroddiad Cynnydd 2022 yn fanwl. Nododd yr Aelodau y byddai'r Awdurdod yn camu'n ôl o ddatblygu'r platfform Tik-Tok y cyfeiriwyd ato yn y strategaeth a argymhellir ar gyfer 2023.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a'r strategaeth a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i'r Tîm Ymgysylltu am eu gwaith.
- mewn ymateb i gais, nododd y Pennaeth Ymgysylltu y cyfle i ddisgyblion ysgolion uwchradd yng Nghonwy a Gwynedd gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol a hefyd i annog disgyblion 6ed dosbarth i ddod yn aelodau o'r Cynllun Llysgenhadon.
- Trafododd yr Aelodau gyfleoedd marchnata ar gyfer Yr Ysgwrn a Phlas Tan y Bwlch a'r opsiynau ar gyfer denu cynulleidfaoedd mwy yn y dyfodol.
- Bu Aelodau a Swyddogion yn trafod rôl cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol a sut roedd yr Awdurdod wedi elwa yn ystod cyfnod clo Covid. Cytunodd yr Aelodau fod cyfathrebu effeithlon hefyd wedi chwarae rhan fawr wrth sefydlu rhagdaliad maes parcio ym Mhen y Pass.
- croesawodd Aelod lefel yr ymgysylltu a oedd yn deillio o benderfyniad yr Awdurdod i ddefnyddio'r enwau Cymraeg Yr Wyddfa ac Eryri.

**PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2022: Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.**

10. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd – Cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022 ac 8 Chwefror 2023.

Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y Camau Gweithredu. Dywedodd ymhellach fod Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cyfarfod ar gynnydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau heddiw, ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Ebrill 2023.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion, er gwybodaeth.**

11. **Adroddiad Cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau**

Cyflwynwyd – Adroddiad cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022.

Cyflwynodd Cadeirydd y Grŵp Rheoli Asedau yr adroddiad a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y Cynllun Rheoli Asedau.

Yn codi wedi hynny, ac mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol pam nad oedd Plas Tan y Bwlch yn caniatáu arosiadau un noson, ond cytunodd y gellid ailystyried hyn yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.15**